



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Adroddiad ymchwil

Parch, cydraddoldeb, cyfranogiad: archwilio addysg hawliau dynol ym Mhrydain Fawr

Gorffennaf 2020

Dr. Leah Culhane and Emma McGeough

© 2020 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd yn gyntaf Tachwedd 2020

ISBN 978-1-84206-832-8

Adroddiad ymchwil 134

Cyfres Adroddiad Ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cysylltwch â'r Tîm Ymchwil ar gyfer gwybodaeth am ein hadroddiadau ymchwil eraill, neu ymwelwch â'n [gwefan](#).

Post: Research Team
 Equality and Human Rights Commission
 Arndale House
 The Arndale Centre
 Manchester M4 3AQ

E-bost: research@equalityhumanrights.com

Ar gyfer gwybodaeth ar fynediad i un o'n cyhoeddiadau mewn fformat amgenach, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

Cynnwys

Diolchiadau	5
Acronymau a byrfoddau	6
Crynodeb Gweithredol	7
Trosolwg	7
Beth yw addysg hawliau dynol?	8
Sut mae ysgolion yn rhoi addysg hawliau dynol ar waith?	8
Beth sydd angen i ysgolion ei wneud i roi addysg hawliau dynol ar waith yn llwyddiannus?	9
Beth yw effaith addysg hawliau dynol?	10
Cyflwyniad	11
Nod yr ymchwil.....	11
Cefndir	12
Rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol i hyrwyddo HRE	12
Gofynion i ddysgu HRE ar draws cwricwla cenedlaethol	13
Methodoleg	16
Sampl.....	16
Cyfweiliadau	17
Holiadur disgyblion.....	17
Adolygiad o ddogfennau	17
Cyfyngiadau	18
1 Beth yw addysg hawliau dynol?	19
1.1 Hawliau plant yw pwynt ffocws yr ysgol	19
1.2 Ymagwedd ysgol gyfan.....	20
2 Pam bod ysgolion yn mabwysiadu addysg hawliau dynol?	21

2.1 I rymuso disgyblion	21
2.2 I greu diwylliant o gydraddoldeb a chynhwysiant	21
3 Sut wnaeth ysgolion weithredu addysg hawliau dynol?	23
3.1 Creu ethos sy'n parchu hawliau	23
3.2 Integreiddio hawliau dynol ar draws y cwricwlwm	24
3.3 Meithrin cyfranogiad disgyblion	26
3.4 Creu amgylchedd cynhwysol a theg.....	29
4 Beth mae ysgolion ei angen i weithredu addysg hawliau dynol yn llwyddiannus?	32
4.1 Arweinyddiaeth	32
4.2 Capasiti	33
4.3 Arian.....	33
4.4 Dealltwriaeth o hawliau plant a HRE	34
4.5 Cefnogaeth gan gymuned yr ysgol.....	35
4.6 Cefnogaeth llywodraeth genedlaethol a lleol.....	36
4.7 Cwricwlwm cenedlaethol cefnogol	38
5 Beth yw effaith addysg hawliau dynol?	41
5.1 Gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb	41
5.2 Lleihau rhagfarn ac agweddau gwahaniaethol	42
5.3 Gwelliant yn ymddygiad disgyblion	43
5.4 Gwelliant yn lles, ymgysylltu a hyder disgyblion	43
5.5 Gwella recriwtio a dargadw athrawon	44
Casgliad	45
Atodiad - Cwricwla cenedlaethol	48
Atodiad 1: Canllaw cyfweiliad	50

Atodiad 2: Holiadur disgyblion 55
Cyfeiriadau..... 56
Cysylltiadau 58

Diolchiadau

Hoffai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) ddiolch i'r ysgolion a gymerodd rhan yn yr ymchwil hwn. Mae'r rhain yn cynnwys Admiral Lord Nelson School, Ashley High School, Felpham Community College a The Regis School yn Lloegr; Ellon Academy, Gracemount High School a Woodfarm High School yn yr Alban; ac Ysgol Alun, Ysgol Gyfun Pentrehafod ac Ysgol Gyfun Rhydywaun yng Nghymru.

Hoffem hefyd ddiolch i'r pwyllgor cynghori arbenigol ar gyfer yr ymchwil hwn, pwyllgor a ddarparodd sylwadau a chanllaw drwyddi draw. Diolch arbennig i Edward Waller (Human Rights Education for all), Sarah Hamilton (UNICEF), Yr Athro Carol Robinson (Prifysgol Edge Hill), Yr Athro Audrey Osler (Prifysgol Leeds), Dr. Alison Struthers (Prifysgol Warwick), Yr Athro Simon Hoffman (Prifysgol Abertawe), Jane Houston (Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru) a Cathy Begley (Swyddfa Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban).

Corff Cydraddoldeb Cenedlaethol (NEB) yw'r CCHD, ar gyfer Prydain Fawr, a Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol Statws 'A' (NHRI), gan rannu ein cyfrifoldebau hawliau dynol yn yr Alban gyda Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC). Yn unol â'r Memorandwm Dealltwriaeth rhwng y SHRC a'r CCHD, darparodd y SHRC ganiatâd ar gyfer cynnal yr ymchwil hwn yn yr Alban. Hoffwn ddiolch i'r SHRC am ei fewnbwn.

Acronymau a byrfoddau

AoLE	Meysydd Dysgu a Phrofiad
ASN	Anghenion Cymorth Ychwanegol
ALN	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CCfW	Comisiynydd Plant Cymru
CCHD	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
GIRFEC	'Getting it Right for Every Child'
GTCS	Cyngor Dysgu Cyffredinol yr Alban
HRE	Addysg Hawliau Dynol
ICESCR	Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
LfS	'Learning for Sustainability'
RRSA	'Rights Respecting School Award'
RSE	Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
SEN	Anghenion Addysg Arbennig
UNCRC	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
UDHR	Datganiad Hawliau Dynol Cyffredinol
UNDHRET	Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg Hawliau Dynol a Hyfforddiant

Crynodeb Gweithredol

Gweledigaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yw cymdeithas lle cynhelir hawliau pobl, gwerthfawrogi amrywiaeth a chaiff goddefgarwch ei herio. Nod blaenoriaeth yn ein cynllun strategol 2019–2022 yw system addysg sydd yn hyrwyddo perthynas dda ag eraill a pharch dros gydraddoldeb a hawliau dynol. Rydym o'r farn bod addysg hawliau dynol (HRE) yn elfen bwysig wrth gyflawni'r nodau hyn.

Cyflwyno'r ymchwil hwn enghreifftiau o ymarfer dda ym maes HRE ledled Prydain Fawr. Mae'n archwilio: sut gafodd dull hawliau dynol ei roi ar waith yn yr ysgol ar draws dair cenedl; yr heriau a'r cyfleoedd a wyneba ysgolion wrth roi'r fath ddull ar waith, yr hyn yw ymarfer HRE orau; ac effaith HRE ar ysgolion a disgyblion.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys 10 ysgol uwchradd sydd wedi mabwysiadu dull hawliau dynol: pedair yn Lloegr, tair yn yr Alban a thair yng Nghymru. Er mwyn nodi enghreifftiau o ymarfer HRE da, gwahoddom ysgolion a oedd wedi'u hachredu ag 'UNICEF Rights Respecting School Award' (RRSA) i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Roedd casglu data yn cynnwys tri llinyn: cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag athrawon a phrifathrawon, arolwg disgybl ar-lein ac adolygu dogfennau ysgol.

Trosolwg

Noda ein hymchwil nifer o fuddion allweddol HRE. Yn sgil mabwysiadu HRE, soniodd athrawon am welliant o ran cyrhaeddiad a phresenoldeb; ymddygiad disgyblion a lles gwell; gostyngiad o ran rhagfarn ac agweddau gwahaniaethol; a recriwtio a dargadw athrawon gwell. Er mwyn i ddull hawliau dynol fod yn llwyddiannus, mae rhaid i ysgolion newid eu diwylliant, meithrin cyfranogiad disgyblion, ymgorffori hawliau dynol yn eu haddysgu a chreu amgylchedd lle caiff pob disgybl ei drin yn gyfartal a theg.

Mae canfyddiadau ein hymchwil hefyd yn dangos yr heriau wrth ddatblygu'r dull hwn. Mae arweinyddiaeth gref, gallu, arian, cefnogaeth pawb, gwybodaeth a chwricwlwm sydd yn arddel HRE yn bwysig ar gyfer ei roi ar waith yn llwyddiannus. Yn allweddol, dengys y canfyddiadau fod cefnogaeth llywodraeth genedlaethol a lleol yn bwysig i orchfygu'r rhwystrau hyn, ond yn amlygu bod gwahaniaethau noeth o ran cynnydd a chefnogaeth i HRE ar draws y tair cenedl. Os yw HRE i'w ddatblygu ar draws y sector, rhaid gwneud rhagor i'w hyrwyddo a dangos ei fuddion. Mae tystiolaeth bellach o effaith dull hawliau dynol yn bwysig yn y cyd-destun hwn, yn arbennig ei effaith hirdymor, i ddarparu sail tystiolaeth gref ar gyfer ymarferwyr a llunwyr polisi.

Beth yw addysg hawliau dynol?

Datgan datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol (UNDHRET, 2011) fod HRE yn amgynnwys addysg:

- a) *Am* hawliau dynol, sydd yn cynnwys darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion ac egwyddorion hawliau dynol, y gwerthoedd sydd yn eu tanategu a'r mecanweithiau ar gyfer eu hamddiffyn;
- b) *Trwy* hawliau dynol, sydd yn cynnwys dysgu ac addysgu mewn ffordd sydd yn parchu hawliau addysgwyr a dysgwyr fel ei gilydd;
- c) *Ar gyfer* hawliau dynol, sydd yn cynnwys grymuso pobl i fwynhau ac ymarfer eu hawliau ac i barchu a chynnal hawliau pobl eraill.

Sut mae ysgolion yn rhoi addysg hawliau dynol ar waith?

Ailadroddodd athrawon ymhob un o'r 10 ysgol bwysigrwydd dysgu *am*, *trwy* ac *ar gyfer* hawliau dynol drwy 'ddull ysgol-gyfan'. Amlinella'n hymchwil bedwar prif gam y cymerodd yr ysgolion i gyflenwi hyn yn llwyddiannus:

1. Creu ethos sydd yn parchu hawliau

Gwnaeth athrawon addasu polisiâu a chynlluniau'r ysgol i adlewyrchu hawliau plant, gwnaethant gynrychioli'r ethos yn weledol ar draws yr ysgol ac hyfforddi athrawon eraill fel eu bod wedi cynefino â'r dull hawliau dynol a'r UNCRC. Cafodd yr ethos a oedd yn parchu hawliau ei hyrwyddo, yn fewnol ac yn allanol fel ei gilydd, a'i ymgorffori i safonau dysgu; contractau a chylochoedd argraffu; a hysbysebion swydd a chyfweliadau swydd.

- 2. Integreiddio hawliau dynol ar draws y cwricwlwm** Mabwysiadodd yr ysgolion ddull cwricwlwm-gyfan ac integreiddio hawliau dynol ar draws pob pwnc, meysydd dysgu a chyfnodau allweddol. Roedd y cyfnod gyda'r tiwtor, gwasanaethau, digwyddiadau ac ymgyrchoedd elusen a arweiniwyd gan yr ysgol yn fannau dysgu allweddol hefyd.
- 3. Meithrin cyfranogiad disgyblion** Cafodd mesurau eu rhoi ar waith yn yr ysgolion i hwyluso hawl y disgybl i leisio'i farn. Roedd y rhain yn cynnwys cynghorau disgybl, grwpiau arweinyddiaeth, seneddau disgybl, arolygon disgybl, hyfforddiant a arweiniwyd gan ddisgyblion a siarterau a rheolau ysgol a ddyfeisiwyd gan ddisgyblion.
- 4. Creu amgylchedd ysgol gynhwysol a theg** Creodd ysgolion gyfleusterau i gefnogi ystod eang o ddisgyblion ac i ddileu rhwystrau rhag dysgu. Roedd y rhain yn cynnwys unedau cynhwysiant, canolfannau cymorth dysgu a rhaglenni bugeiliol cryf. Hefyd mabwysiadodd ysgolion ddulliau adferol wrth ddatrys anghydfod er mwyn gostwng gwaharddiadau.

Beth sydd angen i ysgolion ei wneud i roi addysg hawliau dynol ar waith yn llwyddiannus?

Dengys canfyddiadau'n hymchwil yr hyn sydd ei angen i roi'r dull hwn ar waith a'r rhwystrau a'r cyfleoedd a brofodd aeldau staff yr ysgol wrth wneud hynny:

- **Arweinyddiaeth gref** Roedd cefnogaeth gan y prifathro a'r uwch dîm arwain yn hanfodol ym mhob un o'r ysgolion i wneud y newidiadau angenrheidiol a sicrhau cefnogaeth y staff a'r disgyblion.
- **Adnoddau digonol** Rhoddwyd amser a gallu i'r athrawon roi HRE ar waith, yn arbennig yn wyneb blaenoriaethau cystadleuol. Oni bai am hyn, ac oni bai am adnoddau ariannol ar gyfer cyfleusterau cymorth i ddisgyblion, hyfforddiant athrawon a'r 'UNICEF Rights Respecting School Award', gallai ei roi ar waith fod yn anodd.
- **Gwybodaeth ac ymgysylltu** Bu gwybodaeth o'r UNCRC a HRE, ymysg staff a disgyblion, yn gymorth i ddull hawliau dynol yn yr ysgolion a gymerodd rhan. Dywedodd rhai athrawon fod gwybodaeth o'r UNCRC yn ddarniog ymysg staff a disgyblion cyn cafodd dull hawliau dynol ei roi ar waith, tra wnaeth eraill gydnabod gwrthwynebiad ymysg rhai aelodau staff.

- **Cymorth y llywodraeth** Cyflwynodd Llywodraethau Cymru a'r Alban rai mesurau a anogodd ysgolion i fabwysiadu HRE a chreu cefnogaeth ymysg ymarferwyr. Yn nodedig, mae Llywodraeth yr Alban wedi datgan ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori'r UNCRC i gyfraith ddomestig ac mae'r UNCRC yn rhannol wedi'i ymgorffori yng Nghymru drwy'r Mesur Hawliau Plant a Phersonau Ifanc (2011). Mewn ymateb i bolisiâu llywodraeth genedlaethol, mae awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Alban wedi darparu cyllid, hyfforddiant a chymorth strategol i ysgolion. Nid fel hyn yw hi i'r ysgolion a gyfrannodd yn Lloegr, lle bu'n fwy heriol yn sgil diffyg cymorth gan y llywodraeth.
- **Cwricwlwm cenedlaethol sydd yn cefnogi HRE** Mae presenoldeb hawliau dynol yn fframwaith arolygu 'Curriculum for Excellence and Education' yr Alban wedi annog ysgolion yn yr Alban i ystyried HRE fel rhan o'u cylch gwaith. Yn gwrthgyferbyniol, adroddodd athrawon yng Nghymru a Lloegr na fydd y rhan fwyaf o ysgolion yn blaenoriaethu HRE oni bai iddo gael ei wneud yn orfodol yn eu cwricwla cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru 2022 yn cynnig cyfleoedd sylweddol i hybu a rhoi HRE ar waith, o ystyried bod HRE a'r UNCRC wedi'u hintegreiddio ar draws feysydd dysgu a phrofiad.

Beth yw effaith addysg hawliau dynol?

Ym mhob un o'r 10 ysgol, soniodd athrawon fod HRE wedi effeithio'n bositif ar ysgolion a disgyblion. Y pum budd a ganfuwyd yn fwyaf cyffredin oedd:

- **Cyrhaeddiad a phresenoldeb gwell** Dywedodd athrawon am welliant amlwg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ond gwnaethant gydnabod fod hyn yn anodd ei briodoli yn unig i ddull HRE.
- **Gostyngiad o ran rhagfarn ac agweddau gwahaniaethol** Crybwyllwyd bod y disgyblion yn fwy eangfrydig a bod gwybodaeth a pharch gwell ganddynt i hawliau dynol ar ôl mabwysiadu dull hawliau dynol. Adroddodd ysgolion â phoblogaethau amrywiol gorff disgyblion wedi'i integreiddio a'i gydlynu'n well a gostyngiad mewn helyntion hiliol ac iaith homoffbig.
- **Ymddygiad disgybl gwell** Gwelodd y rhan fwyaf o'r ysgolion ostyngiad mewn gwaharddiadau a soniodd rhai am ostyngiad mewn achosion bwlio. Canlyniad amgylchedd ysgol fwy parchus a chynhwysol oedd hyn, yn ogystal â mabwysiadu dulliau adferol i anghydfod a mewnbwn disgybl gwell wrth lunio rheolau ysgol.
- **Lles disgybl ac ymgysylltu gwell** Sylwodd athrawon ar welliant mewn lles disgyblion wrth ei fesur drwy arolygon disgyblion mewnol. Disgrifiodd ymatebion disgyblion i'n harolwg hyder, gwybodaeth hawliau dynol ac annibyniaeth gwell ymysg disgyblion.
- **Recriwtio a dargadw athrawon gwell** Priodolodd athrawon hyn i welliant yn amgylchedd gweithio'r ysgol a pherthynas gwell rhwng disgyblion ac athrawon yn sgil y dull hawliau dynol.

Cyflwyniad

Nod yr ymchwil

Nod yr adroddiad hwn yw archwilio arfer dda ym maes addysg hawliau dynol (HRE) ar draws Brydain Fawr. Mae'n bwrw golwg ar sut gafodd dull hawliau dynol ei roi ar waith mewn ysgolion ar draws y tair cenedl: yr heriau a'r cyfleoedd y wyneba ysgolion wrth roi'r fath ddull ar waith; yr hyn yw ymarfer HRE orau; ac effaith HRE ar ysgolion a disgyblion.

Un o'n cyrchnodau, fel y'i hamlinellwyd yn ein cynllun strategol 2019–2022 (CCHD, 2019), yw sicrhau bod gennym seiliau cryf y gallwn arnynt adeiladu cymdeithas fwy cyfartal sydd yn parchu hawliau. Mae ysgolion yn chwarae rôl hanfodol wrth ffurfio agweddau, a chydabyddwn y potensial i daclo rhagfarn a chryfhau parch ar gyfer amrywiaeth drwy ymyriadau yn y dyddiau cynnar. Ein hymroddiad i ddeall y ffyrdd gorau i atal a newid agweddau rhagfarnllyd sydd wrth wraidd yr ymchwil hwn (CCHD, 2019).

Yn ychwanegol, nod blaenoriaeth yn ein cynllun strategol (CCHD, 2019) yw cyflawni system addysg sydd yn hyrwyddo perthynas dda ag eraill a pharch dros gydraddoldeb a hawliau dynol. Byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni hyn pan fydd ysgolion: yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn cynrychioli o ran amrywiaeth; yn cynnal safonau uchaf cydraddoldeb a hawliau dynol wrth iddynt drin disgyblion a staff; ac yn hybu cydraddoldeb a hawliau dynol drwy'r amgylchedd dysgu a chynnwys y cwricwlwm. Mae'r gwerthoedd hyn wrth wraidd dull hawliau dynol i addysg.

Rydym hefyd am sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau cenedlaethol ar y mater hwn. Mae nifer o offer hawliau dynol cenedlaethol wedi cynnwys yr hawl i HRE, gan gynnwys y Datganiad Hawliau Dynol Cyffredinol (UDHR), y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) a'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar integreiddio HRE i ysgolion a chwricwla cenedlaethol, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod systemau addysg ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban yn adlewyrchu a hybu cydraddoldeb a hawliau dynol.

Gobeithio bydd yr ymchwil hwn yn codi ymwybyddiaeth am y dull hwn ymysg llywodraethau, arolygiaethau, ysgolion, gwarchodwyr a sefydliadau cymdeithas sifil.

Cefndir

Rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol i hyrwyddo HRE

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig rwymedigaeth dan gyfraith rhyngwladol i weithredu'r hawliau a sefydlir yn y cyfamodau mae'r Deyrnas Unedig wedi eu cadarnhau. Mae nifer o offerynnau hawliau dynol rhyngwladol allweddol wedi diogelu'r hawl i HRE. Mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR, erthygl 26) yn datgan 'y bydd addysg yn cael ei gyfeirio at ddatblygiad llawn personoliaeth ddynol ac i gryfhau parch tuag at hawliau dynol a rhyddidau sylfaenol.' Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC, erthygl 29) yn sefydlu ymhellach y dylai addysg ddatblygu parch tuag at hawliau dynol a pharatoi'r plentyn ar gyfer bywyd mewn cymdeithas rydd, yn ysbryd dealltwriaeth, heddwch, goddefgarwch, cydraddoldeb i'r rhywiau a chyfeillgarwch ymysg yr holl bobl. Wrth gadarnhau'r rhain, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi derbyn y dylai HRE fod yn rhan o ddysg pob plentyn.

Yn y Deyrnas Unedig, mae Llywodraethau'r Alban a Chymru wedi ymateb yn wahanol i alwadau i'r UNCRC gael ei gynnwys mewn cyfraith ddomestig. Mae ymgorffori cyfamodau ac offerynnau mewn cyfraith ddomestig yn bwysig i drosi hawliau dynol yn bolisi domestig ac i hybu atebolrwydd cyfreithiol. Er gwaethaf nifer o alwadau gan gyrff cyfamod y Cenhedloedd Unedig i ymgorffori'r UNCRC i gyfraith ddomestig, mae Llywodraethau olynol y Deyrnas Unedig wedi gwrthod gwneud hynny. Golyga hyn nad yw'r hawliau a warantir dan yr UNCRC yn rhwymo Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac nad oes modd eu gorfodi gan lysoedd domestig.

Yn 2018, fe wnaeth Llywodraeth yr Alban ymroddiad i ymgorffori'r UNCRC yn uniongyrchol i gyfraith yr Alban (Robinson, Quennerstedt a l'Anson, 2020). Mae ymgorffori uniongyrchol yn golygu trawsnewid cyfamod hawliau dynol rhyngwladol i gyfraith ddomestig trwy ei wneud yn rhan o gyfansoddiad cenedlaethol neu ddeddfwriaeth genedlaethol (Hoffman, 2019). Os yw'r ddeddfwriaeth yma yn pasio trwy Senedd yr Alban, bydd yr UNCRC yn rhwymo Llywodraeth yr Alban ac awdurdodau cyhoeddus mewn cyfraith, a bydd unigolion yn gallu dibynnu ar eu hawliau gerbron llysoedd yr Alban. Roedd hyn yn adeiladu ar Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014 a sefydlodd ddyletswydd ar weinidogion Llywodraeth yr Alban i ystyried sut y gallent 'sicrhau'n well neu wireddu ymhellach ofynion yr UNCRC yn yr Alban.'

Yn 2011, fe ymgorfforodd Llywodraeth Cymru yr UNCRC yn anuniongyrchol i gyfraith genedlaethol trwy'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Golyga ymgorfforiad anuniongyrchol bod cyfamod hawliau dynol yn cael yr un grym cyfreithiol trwy ddeddfwriaeth ddomestig, ond nid yw'n rhwymo llywodraethau nac awdurdodau cyhoeddus, nac yn gallu cael ei orfodi mewn llysoedd domestig (Hoffman, 2019). Sefydlodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, i dalu 'sylv dyledus' i'r UNCRC. Tra bod hyn yn brin o ymgorfforiad uniongyrchol, mae'r mesur yn gam pwysig tuag at roi grym statudol i'r UNCRC yng Nghymru a chyfreithloni iaith hawliau'r Confensiwn wrth drafod polisi (Hoffman ac O'Neill, 2018). Mae'r mesur hefyd wedi cyflwyno disgwyliad o gydymffurfiaid gyda'r Confensiwn (ibid). Sefydlwyd dyletswydd bellach ar Lywodraeth Cymru yn 2017 i hyrwyddo'r UNCRC ar draws cymdeithas a sefydliadau.

Gofynion i ddysgu HRE ar draws cwricwla cenedlaethol

Mae'r cwricwla ar draws y tair gwlad yn darparu gwahanol gyfleoedd i ddysgu HRE (Gweler yr Atodiad am ragor o fanylion ar bob cwricwlwm cenedlaethol). Yn Lloegr, nid yw dysgu hawliau dynol fel pwnc penodol unigol yn ofynnol. Fodd bynnag, cyfeirir at hawliau yn nogfennau'r cwricwlwm ar draws amrywiol bynciau gofynnol (Robinson, 2017). Dywed y cwricwlwm dinasyddiaeth y dylai dysgu ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddemocratiaeth, llywodraeth a hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion (DfE, 2014, tt. 83-84). Mae hefyd yn datgan y dylai disgyblion ddysgu am 'hawliau dynol a chyfraith ryngwladol' a 'hunaniaethau amrywiol cenedlaethol, rhanbarthol, crefyddol ac ethnig yn y Deyrnas Unedig a'r angen am barch a dealltwriaeth rhwng y naill a'r llall' (ibid). Mae'r cwricwlwm perthnasau ac addysg rhyw (RSE) yn datgan ymhellach y dylai disgyblion wybod yr hawliau a chyfrifoldebau parthed cydraddoldeb a'i hawliau, cyfrifoldebau a chyfleodd ar-lein (DfE, 2019, t. 28).

Mae cwricwlwm cenedlaethol Cymru yn debyg iawn yn cynnwys rhai elfennau sy'n adlewyrchu egwyddorion a gwerthoedd hawliau dynol, ond nid yw cefnogi disgyblion i ddysgu am eu hawliau yn ofynnol (CPC, 2018, t. 3). Er bod rhywfaint o gynnydd wedi bod gan ysgolion yn lleol, mae ymarfer a dysgu hawliau yn parhau i fod yn dameidiog ac anghyson ar draws Cymru (ibid). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cwricwlwm newydd, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar HRE. Mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac annibyniaeth i ysgolion ac athrawon ac mae'n cynnwys chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' (MDPh). Mae'r UNCRC wedi ei ymgorffori fel thema drawsbynciol ar draws yr MDPH yma gyda ffocws arbennig dan yr MDPH Dyniaethau a'r MDPH Iechyd a Lles. Mae disgyblion yn dysgu bod ganddynt hawliau a bod yn rhaid iddynt gael cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o'r UNCRC (Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru, 2020a). Mae dysgu ynghylch, trwy ac ar gyfer hawliau hefyd wedi ei integreiddio i ddisgrifiadau o ddysgu mewn gwahanol feysydd pwnc. Mae'r canllaw diweddaraf ar y cwricwlwm a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn tywys ysgolion ar sut i integreiddio HRE (Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru, 2020b).

Yn yr Alban, mae'r Cwricwlwm Rhagoriaeth, a gyflwynwyd yn 2010–11, yn darparu fframwaith ar gyfer dysgu ac addysgu yn hytrach na chwricwlwm cenedlaethol rhagnodedig. Rhoddir hyblygrwydd ac annibyniaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol alluogi pobl ifanc 3–18 oed i fod yn 'ddysgwyr llwyddiannus, unigolion hyderus, dinasyddion cyfrifol a chyfranwyr effeithiol' ar draws meysydd cwricwlwm penodol. Tra bod cyfrifoldeb am yr hyn a ddysgir yn eistedd gyda chynghorau ac ysgolion, rhaid iddynt ystyried canllawiau a chynghor cenedlaethol. Yr wyth maes cwricwlwm yw Celfyddydau mynegiannol; Iechyd a Lles; Ieithoedd; Mathemateg; Addysg grefyddol a moesol; Gwyddorau; Astudiaethau cymdeithasol a Thechnolegau (Education Scotland). Mae tri o'r meysydd cwricwlwm (Llythrennedd, Rhifedd ac Iechyd a Lles) yn arbennig o bwysig ac mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddarparu'r profiadau hyn a chyflawni'r deilliannau hyn. Mae Education Scotland, asiantaeth weithredol Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am gefnogi ansawdd a gwelliannau yn addysg yr Alban, yn darparu 'Meincnodau' a 'Phrofiadau a deilliannau' i gefnogi cyflawniad y meysydd cwricwlwm. Mae yna gyfres o ddatganiadau clir a chryno ynghylch dysgu a chynnydd disgyblion ym mhob maes cwricwlwm. Mae hawliau dynol wedi eu hintegreiddio i Brofiadau a Deilliannau a Meincnodau. Er enghraifft, mae deilliannau ar gyfer maes 'Iechyd a Lles' y cwricwlwm yn cyfeirio at ddisgyblion yn gallu archwilio'r hawliau y mae ganddyn nhw ac eraill hawl iddynt, i arfer yr hawliau hyn yn briodol, i dderbyn y cyfrifoldebau a ddaw gyda nhw ac i ddangos parch tuag at hawliau eraill (Education Scotland, t. 3). Mae meincnodau ar gyfer y maes cwricwlwm Astudiaethau Cymdeithasol ar y Trydydd Lefel yn cynnwys 'Rwyf wedi cymharu hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion yn yr Alban gyda chymdeithas gyferbyniol a gallaf ddisgrifio a dechrau deall rhesymau dros wahaniaethau' (Education Scotland, 2017).

Mae Dysgu ar gyfer Cynaliadwyedd (LfS) hefyd yn elfen bwysig o'r Cwricwlwm Rhagoriaeth ac yn hawl ar gyfer disgyblion yn yr Alban (Llywodraeth yr Alban, 2013). Mae Dysgu ar gyfer Cynaliadwyedd yn ymagwedd drawsgwricwlaidd ac yn cynnwys addysg datblygiad cynaliadwy, dysgu yn yr awyr agored, dinasyddiaeth fyd-eang a lles cymdeithasol (ibid). Mae hawliau dynol yn rhan ganolog o'r pedwar agwedd yma. Mae Safonau Proffesiynol Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTCS) hefyd yn gofyn i bob ymarferydd, ysgol ac arweinydd addysgol arddangos LfS yn eu hymarfer (GTCS, 2012).

Tra bod y Cwricwlwm Rhagoriaeth yn darparu cyfleoedd i ddysgu am hawliau dynol, nid yw hyn yn cael ei drosi i ymarfer ar bob cyfle. Dengys ymchwil sy'n bodoli bod HRE yn cael ei ddarparu ar sail ad hoc mewn ysgolion yn yr Alban (BEMIS, 2013 t. 56). Er bod yna barodrydd ymysg athrawon ac addysgwyr eraill i hyrwyddo HRE, mae angen hyfforddiant athrawon, arweinyddiaeth wleidyddol a chanllaw cwricwlaidd mwy penodol i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu i'r holl ddisgyblion (ibid). Yn ddiweddar fe wnaeth Llywodraeth yr Alban ymroddiad i adolygu'r Cwricwlwm Rhagoriaeth, a allai gynnig cyfleoedd ar gyfer diwygio (Llywodraeth yr Alban, 2020), ond wrth ysgrifennu hyn roedd wedi ei ohirio oherwydd coronafeirws.

Methodoleg

Mabwysiadodd yr ymchwil ymagwedd astudiaeth achos ansoddol yn cynnwys 10 ysgol uwchradd ar draws Prydain Fawr. Roedd casglu data yn cynnwys tri edefyn: cyfweiliadau lled strwythuredig gydag athrawon a phrifathrawon, arolwg ar-lein i ddisgyblion ac adolygiad o ddogfennau'r ysgol.

Sampl

Mae addysg hawliau dynol yn bwysig iawn ym mhob lleoliad addysgol ac rydym yn cydnabod fod addysg blynyddoedd cynnar a chynradd yn chwarae rôl allweddol o ran datblygiad safbwynt plentyn. Fodd bynnag, yng nghyd-destun adnoddau a gallu cyfyngedig, roedd yr ymchwil yn ffocysu ar ysgolion uwchradd i sicrhau dichonolrwydd y prosiect ac oherwydd bod hyn yn gyfnod critigol addysg o ran paratoi plant ar gyfer bywyd fel oedolion ac ymarfer eu hawliau yn y dyfodol.

Gan ystyried bod yr ymchwil â diddordeb mewn nodi arfer da, gwahoddwyd sampl bwriadus o ysgolion ym Mhrydain Fawr sydd wedi eu hachredu gyda gwobr Ysgol sy'n Parchu Hawliau (RRSA) UNICEF i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Mae RRSA UNICEF yn cydnabod cyflawniad ysgol o ran rhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ar waith yn yr ysgol a thu hwnt.¹ Dyma'r unig gynllun achredu HRE a gynigir i ysgolion ar draws Prydain Fawr.

Detholwyd y sampl ysgolion o'r boblogaeth o'r rhai oedd â gwobrau RRS 'aur' neu 'arian'. Drafftwyd rhestr fer gychwynnol o ysgolion posibl i gynrychioli cyfuniad o ysgolion yn ôl daearyddiaeth, lleoliad trefol/gwledig; graddiad arolygiaeth; a phoblogaeth y disgyblion. Roedd y sampl terfynol yn cynnwys cyfanswm o 10 ysgol uwchradd, pedair yn Lloegr, tair yn yr Alban a thair yng Nghymru. Fe wnaethom wahodd ysgolion i gymryd rhan a gofynnwyd i'r rhai a gytunodd i ddsbarthu'r arolwg ar-lein i ddisgyblion oedd yn rhan o'r gwaith parchu hawliau trwy grwpiau disgyblion.

¹ Am ragor o wybodaeth am Wobr Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF gweler: <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/>

Cyfweliadau

O fewn pob ysgol, fe wahoddom y pennaeth ac un athro arall, fel arfer yr arweinydd ysgol sy'n parchu hawliad (RRS), i gymryd rhan mewn cyfweliadau. I hwyluso darllen, rydym yn cyfeirio at gyfranogwyr y cyfweliad yn gyfunol fel 'athrawon' trwy gydol yr adroddiad. Cyflawnwyd cyfweliadau gydag un neu'r ddau, yn ddibynnol ar eu hargaeledd a chymhwyster. Ar y cyfan, cyflawnom 16 cyfweliad wyneb yn wyneb mewn ysgolion rhwng Rhagfyr 2019 a Chwefror 2020; gyda phob un yn parhau rhwng 60 a 90 munud. Roedd cyfweliadau yn lled strwythuredig ac yn dilyn canllaw trafod a ddiffiniwyd o flaen llaw (gweler Atodiad 1), oedd yn ffocysu ar pan fabwysiadwyd ymagwedd sy'n parchu hawliau yn yr ysgol, sut cafodd ei weithredu, yr heriau a chyfleoedd a luniodd y broses ac effaith yr ymagwedd ar ysgolion a disgyblion. Roedd pwyslais arbennig ar ennyn gwybodaeth am arfer da ac archwilio sut gellid ehangu ar hyn ar draws y sector. Yna fe gyflawnom ddadansoddiad thematig o gyfweliadau yn defnyddio meddalwedd Nvivo a defnyddio'r themâu oedd yn dod i'r amlwg i strwythuro casgliadau'r adroddiad.

Holiadur disgyblion

I ychwanegu at y prif gasgliadau, rhannodd ysgolion oedd yn cymryd rhan holiadur cryno gyda dau ddisgybl ym mhob ysgol (gweler Atodiad 2). Nod hyn oedd deall rôl disgyblion o ran gweithredu a chefnogi'r ymagwedd hawliau dynol ac i sicrhau bod safbwyntiau disgyblion yn cael eu cynnwys yng nghasgliadau'r ymchwil. Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau caeedig a phenagored, gan alluogi disgyblion i ddarparu ymatebion trylwyr i rai cwestiynau. Er ar raddfa fechan, roedd yr arolwg yn darparu rhywfaint o ddata cyfyngedig i gefnogi ein casgliadau. Derbyniom naw ymateb gan ddisgyblion i'r arolwg.

Adolygiad o ddogfennau

Cyflawnom ddadansoddiad dogfennol o ddogfennau'r ysgolion i bennu sut oedd ymagwedd hawliau dynol wedi ei integreiddio ar draws yr ysgolion ac i gyfrannu at y casgliadau cyffredinol. Casglwyd y data yma o wefannau'r ysgolion ac/neu fe'i darparwyd gan ysgolion ar gais. Roeddynt yn cynnwys adroddiadau archwilio ysgolion, cynlluniau cwricwlwm, adroddiadau RRSA UNICEF, cynlluniau busnes a strategaeth, llawlyfrau'r ysgol a pholisïau ymddygiad.

Cyfyngiadau

Mae'r ymchwil yn edrych ar 10 o ysgolion uwchradd ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban. Oherwydd cyfyngiadau cyllid, roedd gwerthusiad mwy systematig a graddfa fawr o HRE tu allan i gwmpas y prosiect ymchwil hwn. Er nad yw'r casgliadau yn cynrychioli'r holl ysgolion ym Mhrydain Fawr yn llwyr, maent yn rhoi cipolwg ar beth sy'n gweithio'n ymarferol yn seiliedig ar farnau'r cyfranogwyr.

Detholwyd y sampl o ysgolion oedd wedi eu hachredu gydag RRSA UNICEF. Mae'r casgliadau, felly, yn adlewyrchu un ymagwedd benodol i HRE ac maent yn seiliedig ar ysgolion sydd wedi eu hystyried gan UNICEF i fod wedi gweithredu HRE yn llwyddiannus. Mae sawl ffordd i fabwysiadu ymagwedd hawliau dynol a gall ysgolion nad ydynt yn rhan o'r RRSA hefyd arddangos arfer gorau. Rydym yn cydnabod mai dim ond darlun rhannol o ymarfer a phrofiad cyffredinol ysgol mae'r adroddiad hwn yn ei roi. Yn absenoldeb grŵp rheoli o ysgolion, anogwyd ymatebwyr i drafod sut mae ethos yr ysgol wedi newid dros gyfnod o amser o ganlyniad i fabwysiadu ymagwedd hawliau dynol yn eu hysgol.

Roedd y sampl o ddisgyblion ac athrawon a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymchwil yma yn rhan fawr iawn o arwain ymagwedd hawliau dynol yn eu hysgolion ac fe'i hanogwyd i roi enghreifftiau o arfer gorau. Gallai hyn gyflwyno elfen o ragfarn bositif o ran sut maent yn dehongli ymagwedd hawliau dynol. Rydym yn cydnabod nad yw eu profiad yn gynrychiolaeth ystadegol o'r holl athrawon a staff a bod angen ymchwil pellach i edrych ar sut mae amrediad ehangach o ddisgyblion a staff yn profi HRE ar draws amrediad eang o leoliadau addysgol.

Yn olaf, mae casgliadau'r ymchwil yn adlewyrchu ymgysylltu cyfyngedig gyda'r disgyblion. Nid oedd yn fwrriad i'r arolwg fod yn gynrychiadol o'r corff cyfan o ddisgyblion, y nod oedd deall rôl disgyblion wrth weithredu a chefnogi ymagwedd hawliau dynol. Felly, dim ond dau ddisgybl o bob ysgol a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymchwil, gan adlewyrchu'r nifer o athrawon oedd yn cymryd rhan. Fodd bynnag, fe dderbyniom nifer isel iawn o ymatebion i'n harolwg disgyblion: naw allan o 20 posibl. Rydym yn cydnabod bod hyn yn gyfyngiad pwysig ar gyfer yr adroddiad a bod angen ymchwil pellach sy'n ymgysylltu gydag adran fwy o ddisgyblion.

1 Beth yw addysg hawliau dynol?

Mae Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol (UNDHRET) yn darparu'r diffiniad mwyaf cynhwysfawr o HRE. Dywed erthygl 2(2) (UNDHRET, 2011) bod addysg hawliau dynol (HRE) yn cwmpasu addysg:

- a) *Ynghylch* hawliau dynol, sy'n cynnwys darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o normau ac egwyddorion hawliau dynol, y gwerthoedd sy'n eu hategu a'r mecanweithiau ar gyfer eu diogelu;
- b) *Trwy* hawliau dynol, sy'n cynnwys dysgu ac addysgu mewn ffordd sy'n parchu hawliau addysgwyr a dysgwyr;
- c) *Ar gyfer* hawliau dynol, sy'n cynnwys grymuso unigolion i fwynhau ac arfer eu hawliau ac i barchu a chynnal hawliau pobl eraill.

Fe ofynnem i athrawon am eu dehongliad o hawliau dynol a beth oeddynt yn teimlo oedd y nodweddion allweddol.

1.1 Hawliau plant yw pwynt ffocws yr ysgol

Mae'n golygu rhoi hawliau plant yn ganolog i'n holl bolisiau. Rydym yn ceisio defnyddio'r confensiwn, iaith y confensiwn, athroniaeth y confensiwn, i hysbysu a chyfeirio ein hymarfer. Mae ar ein waliau, yn ein polisiau, ar ein drysau, yn ein cynlluniau gwersi, felly mae ym mhobman. – Athro yn Lloegr

Roedd HRE mhob un o'r ysgolion yn ffocysu ar y plentyn ac roedd hawliau plant yn ganolog i wneud penderfyniadau. Adroddodd athrawon bod yn rhaid i fuddiannau gorau'r plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob gweithred. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) oedd y glaslun ar gyfer ymarfer yr ysgol ac roedd athrawon yn fuan iawn i gyfeirio at erthyglau penodol i gyfiawnhau penderfyniadau penodol. Er enghraifft, cysylltwyd sefydlu grwpiau llais disgyblion i erthygl 12, yr hawl i wrandawriad, tra bod darparu gweithgareddau allgyrsiol yn cael ei gysylltu i erthygl 31, yr hawl i hamdden, chwarae a diwylliant.

Yn y mwyafrif o ysgolion, roedd mwy o bwyslais ar hawliau plant, fel y nodir yn yr UNCRC, yn hytrach nag ar hawliau dynol yn fwy cyffredinol. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod Gwobr Ysgol sy'n Parchu Hawliau (RRSA) UNICEF, sydd wedi cefnogi'r ysgolion hyn, hefyd yn pwysleisio'r UNCRC. Fodd bynnag, roedd y staff yn cydnabod nad oes modd gwahanu'r ddau a bod dysgu am hawliau plant yn darparu llwyfan i drafod hawliau dynol ac i annog disgyblion i fod yn gynalyddion hawliau.

1.2 Ymagwedd ysgol gyfan

Hyd yn oed os nad yw'n cael ei ddysgu'n benodol pob un diwrnod, rydyn ni'n dal i ddefnyddio gwerthoedd yr UNCRC. Mae ymagwedd ysgol gyfan yn bendant yn allweddol. – Athro yn yr Alban

Ategodd athrawon o bob un o'r 10 ysgol bwysigrwydd dysgu *ynghylch, trwy ac ar gyfer* hawliau dynol trwy 'ymagwedd ysgol gyfan.' Yn ogystal â dysgu hawliau dynol i ddisgyblion trwy'r cwricwlwm roedd athrawon yn pwysleisio bod yn rhaid i ymagwedd hawliau dynol hefyd gael ei fewnosod ar draws pob agwedd o'r ysgol ac yn ganolog i ethos, polisiau ac arferion yr ysgol. Felly, nid oedd HRE yn gyfrifoldeb i un person neu bwnc, yn hytrach roedd yn gyfres o arferion, cynlluniau dysgu ac ymddygiadau sy'n llunio diwylliant yr ysgol. Roedd HRE hefyd yn seiliedig ar y cynsail y cynhaliwyd hawliau plant o fewn yr ysgol a bod dysgu'n digwydd mewn amgylchedd sy'n seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol cyfranogiad, cynhwysiant, parch ac urddas.

Roedd athrawon yn feirniadol o ymagweddau 'bolltio'. ble nad yw HRE yn cael ei fewnosod yn ysturlon ar draws yr ysgol a phwysleisio bod angen cofleidio pob cydran o HRE i sicrhau ei fod yn cael effaith ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

2 Pam bod ysgolion yn mabwysiadu addysg hawliau dynol?

Fe wnaethom archwilio'r rhesymau pam bod ysgolion yn penderfynu mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol a pham eu bod wedi ceisio RRSA UNICEF.

2.1 I rymuso disgyblion

Hoffwn i bob plentyn deimlo'n angerddol ynghylch rhywbeth, eu bod yn gweld rhywbeth yn y byd maent eisiau ei newid neu ei wella neu ei wneud yn wahanol, ac i fynd ati i'w wneud. [...] Ein gwaith ni yw gwneud i'r plant weld yn fwy. – Athro yn Lloegr

Soniodd athrawon am HRE fel modd i rymuso disgyblion i weithredu ar eu hawliau ac i greu newid yn y byd. Trwy fewnosod hawliau dynol mewn addysg, roedd athrawon yn bwriadu grymuso disgyblion gyda gwybodaeth o'u hawliau a'r gweithgareddau ehangach sy'n digwydd yn y byd. Roedd helpu disgyblion i weld 'darlun ehangach' addysg a'r amgylchedd ble maent yn byw yn bwysig i rai athrawon. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i athrawon o ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol oedd eisiau meithrin dyhead a helpu disgyblion i weld y rôl bositif y gallent chwarae mewn cymdeithas.

2.2 I greu diwylliant o gydraddoldeb a chynhwysiant

Mae gennym gymuned amlddiwylliannol yma, ac rydym angen cofleidio hynny a chodi ymwybyddiaeth o wahanol grefyddau a gwerthoedd, a diwylliannau pobl [...] Ac mi fyddwn i'n dweud mai dyma oedd yr ysgogiad. Dyna fyddai'r cychwyn i mi, bod gennym gohort mor amrywiol. Roeddem angen gwneud y gwaith yna. – Athro yng Nghymru

Cyfrannodd yr awydd i greu diwylliant o gydraddoldeb ac i herio rhagfarn at y penderfyniad a wnaed gan nifer o ysgolion i fabwysiadu HRE. Mewn rhai achosion, roedd HRE yn alinio gydag ethos cyfredol yr ysgol, oedd yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Ond mewn ysgolion eraill, cydnabuwyd hefyd nad oedd yr holl staff a disgyblion yn meithrin yr ethos yma ac roedd cam tuag at ei fewnosod trwy HRE yn cael ei ystyried i fod yn sbardun i daclo'r ymddygiadau hyn. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ysgolion gyda derbyniad diwylliannol amrywiol o ddisgyblion. Er enghraifft, roedd gan ddwy ysgol nifer uchel o ddisgyblion ffoaduriaid oedd wedi cyrraedd y wlad yn ddiweddar, ac fe fabwysiadwyd ymagwedd HRE i helpu hyrwyddo arferion cynhwysol a sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol ac yn deall diwylliant a chefnidir y disgyblion newydd.

3 Sut wnaeth ysgolion weithredu addysg hawliau dynol?

Fe ofynnem i athrawon a gymerodd ran yn yr ymchwil sut oeddynt wedi gweithredu ymagwedd hawliau dynol ac i ddarparu enghreifftiau o ymarfer HRE gorau. Awgrymodd athrawon fod creu ethos o hunan-barch ac integreiddio hawliau dynol ar draws y cwricwlwm yn nodweddion allweddol o ymagwedd hawliau dynol. Ystyriwyd meithrin cyfranogiad disgyblion ac adeiladu amgylchedd dysgu cynhwysol a theg i fod yn allweddol i sicrhau bod hawliau disgyblion yn cael eu cynnal a bod dysgu yn seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol hefyd.

3.1 Creu ethos sy'n parchu hawliau

Rhaid ystyried sut ydych chi'n creu esiampol dda o'r brig, a sut mae'r diwylliant yna wedyn yn lledaenu ar draws cymuned yr ysgol. Mae angen i chi drafod pethau'n agored, 'dyma sut ydyn ni'n gwneud pethau yma, dyma beth ydyn ni'n ei gredu'. – Athro yn Lloegr

Roedd creu ethos sy'n parchu hawliau yn rhan allweddol o weithredu ymagwedd hawliau dynol ym mhob un o'r 10 ysgol. I gychwyn y broses, datblygwyd **cynllun gweithredu ysgol gyfan** ym mhob ysgol, yn sefydlu eu nodau a blaenoriaethau, a sefydlwyd grŵp llywio yn cynnwys staff, gwarchodwyr a disgyblion. Fe gyfunwyd y nodau a blaenoriaethau hyn i gynllunio tymor hwy gan uwch dimau arweinyddiaeth a'u hadlewyrchu yng nghynlluniau datblygu a chynlluniau gwerthuso'r ysgol. Mabwysiadwyd polisiau ysgol hefyd fel bod pob un yn cyfeirio at un erthygl neu fwy o'r UNCRC. Er enghraifft, yn aml byddai polisiau gwrthfwlio yn cyfeirio at erthygl 19, yr hawl i ddiogelu rhag niwed.

Dehonglwyd **siarad yn benodol am a hyrwyddo hawliau** i fod yn ganolog i greu ethos sy'n parchu hawliau. Roedd ysgolion yn hyrwyddo eu hunain fel ysgolion sy'n parchu hawliau ac roedd hyn yn rhan allweddol o gyfathrebu o fewn cymuned yr ysgol. Cyfeiriwyd at hawliau mewn gwarsi, cyfarfodydd staff, holl gyfathrebiadau'r staff a llythyrau a negeseuon e-bost o'r ysgol at warchodwyr hefyd. Roedd gan staff ddyletswydd weithredol i hyrwyddo'r UNCRC ac fe sicrhodd arweinyddion yr ysgol bod athrawon yn ymwybodol o'r disgwyliad hwn trwy integreiddio'r ddyletswydd yma i safonau dysgu, contractau a chylchoedd gwerthuso. Roedd hysbysebion swyddi a chyfweliadau swyddi hefyd yn amlygu'r disgwyliad hwn i hyrwyddo'r UNCRC.

Ystyriwyd **cynrychioli'r ethos yn weledol** ar draws yr ysgol i fod yn ffordd dda i'w atgyfnerthu. Roedd pob ysgol yn creu neu newid eu siarteri ysgolion i adlewyrchu erthyglau'r UNCRC ac roedd y rhain wedi eu harddangos mewn ystafelloedd dosbarth ac ar hysbysfyrddau ar draws yr ysgol. Mewn un ysgol, argraffwyd yr UNCRC yn nyddiaduron yr ysgol, tra bod ysgol arall wedi argraffu erthyglau'r UNCRC ar reffynnau athrawon. Mewn rhai ysgolion roedd staff yn hwyluso 'gweithredoedd crefft', ble byddai disgyblion yn creu cynorthwyon gweledol am achosion gwleidyddol neu gymdeithasol sy'n bwysig iddynt. Roedd hyn yn galluogi disgyblion i borthi i ethos yr ysgol, myfyrio arno a gallu arddangos eu syniadau ar draws eu hysgol.

Roedd mewnosod ymagwedd hawliau dynol hefyd yn golygu addysgu a **hyfforddi staff**, yn ogystal â disgyblion, am HRE a'r UNCRC. Darparodd ysgolion raddau amrywiol o hyfforddiant i'w staff. Dechreuodd nifer gyda diwrnod gwybodaeth i drafod yr ymagwedd arfaethedig gyda staff. Roedd ysgolion eraill yn darparu hyfforddiant athrawon parhaus trwy hyfforddiant mewn swydd (HMS) i'r holl staff, HMS cwricwlwm a HMS dan arweiniad disgyblion. Roedd athrawon newydd hefyd yn cael rhywfaint o hyfforddiant yn ystod ymsefydlu staff, er y cydnabuwyd mai ychydig iawn o amser a roddwyd ar gyfer hyn. Roedd UNICEF yn ddarparwyr hyfforddiant allweddol, gyda rhai ysgolion yn gwneud defnydd o awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector. Er bod angen rhyw lefel o hyfforddiant, roedd athrawon hefyd yn ystyried dysgu i fod yn broses barhaus ac yn cydnabod bod staff yn dysgu ar y cyd â disgyblion trwy'r digwyddiadau, siaradwyr a mentrau parhaus ar draws yr ysgol.

Cydnabuwyd bod adeiladu ethos o hunan-barch yn cymryd amser a bod cynnydd wedi ei sicrhau trwy nifer o fân gamau oedd yn araf gronni i greu diwylliant. Soniodd nifer o athrawon am sut oedd eu hymagwedd hawliau dynol wedi ei 'folltio' yn gychwynnol, a sut oeddynt yn rhoi gormod o sylw i ddysgu pob un o erthyglau'r UNCRC. Fodd bynnag, gydag amser roedd yr ymagwedd wedi ei mewnosod yn fwy ac yn rhan o ddiwylliant yr ysgol. Ystyriwyd bod **ymagwedd raddol** yn allweddol i hyn.

3.2 Integreiddio hawliau dynol ar draws y cwricwlwm

Mae gennym draciwr cwricwlwm ble byddwn yn edrych ar bob maes cwricwlwm unigol ym mhob adran ac yn sicrhau bod athrawon yn trafod hawliau, ymgysylltu gyda hawliau, yn addysgu pobl ar hawliau ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn. – Athro yn yr Alban

Roedd dysgu am hawliau dynol yn gam allweddol arall i weithredu HRE. Nid oedd 'hawliau dynol' yn cael ei ddysgu fel pwnc penodol, unigol mewn ysgolion oedd yn cymryd rhan. Yn hytrach, roedd hawliau wedi eu hintegreiddio ar draws pynciau a chamau allweddol. Felly, fe fabwysiadwyd **ymagwedd cwricwlwm cyfan i HRE**. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, cyflawnwyd archwiliad llawn o'r pynciau presennol a bu penaethiaid adrannau neu benaethiaid meysydd cwricwlwm yn mapio erthyglau o'r UNCRC i gynlluniau dysgu ac unedau gwaith. Yn ymarferol, roedd hyn yn galw am greu cysylltiadau rhwng hawliau a'r cwricwlwm cyfredol. Er enghraifft, mewn hanes, roedd dysgu am y troseddau hawliau dynol mwyaf difrifol, fel yr holocost, yn gatalydd ar gyfer trafodaethau ehangach am yr hawl i fod yn ddiogel a'r hawl i gred grefyddol. Yn naearyddiaeth, cysylltwyd gwersi ar anghydraddoldeb a thai i erthygl 27, yr hawl i safon byw ddigonol.

Nododd nifer o athrawon bod cynnwys hawliau dynol eisoes yn bresennol yn y cwricwlwm cyn mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol. Y dasg oedd i'w wneud yn amlwg, ei fframio gan ddefnyddio iaith hawliau a gofyn gwahanol gwestiynau am gynnwys presennol. Nododd un athro eu bod 'eisoes yn gwneud llawer ohono beth bynnag', ac awgrymu bod ymagwedd hawliau dynol yn fodd i helpu 'dod â'r cyfan ynghyd.' Roedd barnau amrywiol ar os oedd hyn yn llwyth gwaith arwyddocaol ar gyfer athrawon ac ysgolion. Adroddodd rhai cyfranogwyr ei fod yn ymarfer mawr i gychwyn, ond gan gydnabod ei fod wedi dod yn rhan o'r diwylliant yn raddol. Roedd eraill yn ystyried hyn i fod yn gyfrifoldeb iddynt fel deiliaid dyletswydd gan ddatgan bod adolygu'r cwricwlwm yn flynyddol yn rhywbeth oedd eisoes yn digwydd mewn ysgolion. Dehonglwyd defnyddio'r hyn sydd eisoes yn y cwricwlwm i fod yn fodd o leihau'r baich i athrawon a chreu ymrwymiad.

Tra bod yr holl ysgolion wedi mabwysiadu ymagwedd drawsbynciol, roedd yna amharodrwydd i'w 'wthio' i mewn i bob pwnc. Cynhwyswyd erthyglau o gyfamodau hawliau dynol ble roeddynt yn berthnasol, a ble roeddynt yn hybu dysgu. Esboniodd cyfranogwyr y gallai cyfarwyddo athrawon i'w drafod ym mhob gwers achosi drwgdeimlad. Cydnabuwyd ei bod yn haws greu cysylltiadau mewn rhai pynciau a bod hawliau yn llawr mwy crynodedig mewn rhannau penodol o'r cwricwlwm, er enghraifft y dyniaethau sy'n addas iawn i gynnwys hawliau dynol. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r ysgolion yn ei chael yn amhosibl integreiddio hawliau ar draws y cwricwlwm. Crybwyllwyd mathemateg yn rheolaidd fel enghraifft o bwnc ble gallai ysgolion ymgorffori hawliau er gwaethaf problemau cychwynol, er enghraifft trwy ddefnyddio ystadegau a chronfeydd data perthnasol i anghydraddoldeb.

Tu allan i wersi, roedd disgyblion yn dysgu am hawliau mewn amser gyda thiwtor a gwasanaethau gyda phob gwasanaeth yn seiliedig ar erthygl neu nod.

Cynhaliwyd **dyddiau ac wythnosau parchu hawliau** penodol hefyd ble roedd pob gwersi yn ymroddedig i thema neu hawl benodol. Er enghraifft, cynhaliodd un ysgol ddiwrnod hawliau dynol a diwrnod moeseg a goddefgarwch, tra bod un arall wedi cynnal wythnos ffoaduriaid. Nododd athrawon fod dyddiau targedig yn bwysig i loywi'r gwaith a chadw ffocws. Dywedodd rhai ymatebion i'n harolwg disgyblion bod wy i'w wneud o hyd i integreiddio hawliau i ddysgu beunyddiol ar draws y cwricwlwm, yn hytrach na dyddiau ac wythnosol parchu hawliau penodedig.

Roedd **rhannu dysgu**, yn fewnol ymysg athrawon, ac yn allanol gydag ysgolion eraill, hefyd yn bwysig i ysgolion. Roedd ysgolion yn defnyddio'r gwahanol arbenigedd oedd yn bodoli ymysg athrawon ac fe anogwyd athrawon i rannu arfer a chynlluniau gwersi. Roedd gweithio gydag ysgolion eraill yn yr ardal leol i rannu syniadau ac adnoddau yn gyffredin ac yn arbennig o bwysig i rai mewn rhanbarthau gwledig, gan fod hyfforddiant yn aml yn cael ei ddarparu mewn ardaloedd mwy canolog.

Roedd gan ysgolion wahanol ddulliau o gaffael adnoddau dysgu HRE. Adroddodd rhai athrawon eu bod wedi cynhyrchu llawer o'u hadnoddau eu hunain, tra bod eraill yn dibynnu'n helaeth ar ddarparwyr allanol. Roedd ysgolion a ddarparodd adnoddau yn cynnwys yr Elusen WE, ymgyrch OutRight UNICEF UK, UNICEF a PiXL. Roedd ysgolion hefyd yn gweithio gyda sefydliadau allanol, er enghraifft, Ymgyrch ONE, y Groes Goch a'u Clwb Rotari lleol. Tra bod rhai athrawon yn credu y byddai mwy o adnoddau'n ddefnyddiol, roedd eraill yn teimlo bod digonedd o adnoddau gan wahanol ffynonellau ac y byddai arweiniad gan y llywodraeth ar HRE yn fwy buddiol i ysgolion.

3.3 Meithrin cyfranogiad disgyblion

Dydy hawliau dynol ddim yn rhywbeth a wneir *i* [ddisgyblion].

Rydyn ni i gyd yn cydweithio i sicrhau'n bod yn deall a gwerthfawrogi hawliau dynol. – Athro yng Nghymru

Heb os roedd cyfranogiad disgyblion yn rhan ganolog o HRE. Yn deillio o ymroddiad i gynnal hawl plentyn i lais, mae ysgolion wedi sicrhau y gall disgyblion fwydo i mewn i'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ysgol. Roedd athrawon yn cydnabod fod HRE yn rhywbeth a wneir *gyda* disgyblion, nid *iddynt* ac roedd ymagwedd gydweithredol ymysg disgyblion a staff yn gyffredin. Roedd athrawon hefyd yn gyflym i bwysleisio bod llais y disgybl yn golygu gweithio gydag a gwranddo ar ddisgyblion mewn modd ystyrion, yn hytrach na chaniatáu popeth mae disgyblion yn gofyn amdano. Tra bod llais y disgybl yn cael ei ddehongli i fod yn elfen ganolog o HRE, nododd rhai athrawon ei fod hefyd yn ddewis i ddisgyblion beidio cymryd rhan.

Defnyddiwyd **cynghorau disgyblion** fwyaf aml i roi llais i ddisgyblion mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Roedd y rhain wedi eu hethol yn ddemocrataidd ac yn cynrychioli grwpiau blwyddyn a thiwtor. Er bod cynghorau disgyblion yn gyffredin yn y mwyafrif o ysgolion,² soniodd athrawon am y gwir bwyslais a roddir ar lais y disgybl mewn ysgolion sy'n parchu hawliau a'r amrediad ehangach o benderfyniadau yr ymgynghorir â nhw arnynt. Er enghraifft, cyfrannodd cynghorau disgyblion at gynlluniau datblygu a gwerthuso ysgolion, gan weithio gydag arweinwyr cwricwlwm ar gynnwys, gwneud penderfyniadau cyllidebu a mynychu cyfarfodydd cyngor tref. Darparwyd nifer o enghreifftiau ble roedd disgyblion yn rhan o wneud penderfyniadau neu ymgyrchoedd ar gyfer newid sydd wedi llwyddo. Soniodd un athro sut roedd mewnbyn disgyblion wedi sicrhau bod yr ysgol yn flaengar, er enghraifft, roeddynt wedi penderfynu cael toiledau niwtral o ran y rhywiau cyn ei fod yn drafodaeth fawr mewn ysgolion.

² Mae Cynghorau Ysgol o ddisgyblion yn ofynnol yng Nghymru trwy'r Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005). Yn yr Alban, mae'r Ddeddf Safonau yn Ysgolion yr Alban 2000 hefyd yn gofyn i awdurdodau addysg dalu sylw i farnau disgybl mewn penderfyniadau sy'n effeithio'n arwyddocaol ar ddisgybl parthed ei addysg neu ei haddysg ysgol (Senedd yr Alban, 2000).

Tra bod cyngorau disgyblion yn gyffredin, roedd dwy ysgol wedi ailwampio cyngorau ysgol yn llwyr a nawr yn gweithredu dan fodel **senedd disgyblion**. Yn yr ysgol gyntaf, roedd hyn yn golygu ymgorffori pwyllgorau staff i'r senedd fel bod unrhyw benderfyniadau yn yr ysgol wedi alinio gydag ac yn cynnwys grwpiau athro a disgybl. Fe ehangodd yr ail ysgol y nifer o ddisgyblion oedd yn cymryd rhan yn sylweddol a'u dylanwad. Bellach mae ganddynt bedwar grŵp seneddol sydd â chyfrifoldeb dros wahanol feysydd gwelliant yr ysgol: dysgu ac addysgu, safonau a darpariaeth, ethos a lles, a busnes ac adnoddau. Mae'r cabinet (dau aelod o bob un o'r grwpiau seneddol) yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth i gyflwyno eu syniadau a chynlluniau gweithredu.

Sicrhawyd cyfranogiad disgyblion ymhellach trwy **grwpiau arweinyddiaeth disgyblion** eraill. Er enghraifft, mewn un ysgol roedd 'y tîm gwyrdd', is-grŵp i'r grŵp llais y disgyblion, yn arwain ar faterion amgylcheddol. Mewn ysgol arall, cychwynnodd y disgyblion eu hunain is-grŵp LGBT a grŵp Hybu Merched. Roedd Llysgenhadon Hawliau Disgyblion hefyd yn arwain ar lawer o'r gwaith hawliau, yn cynnwys trefnu digwyddiadau. Unwaith eto roedd athrawon yn cydnabod bod rhai o'r grwpiau hyn eisoes yn bodoli cyn i'r ysgol fabwysiadu ymagwedd hawliau dynol. Fodd bynnag, roedd gwneud hynny wedi arwain y staff i gysylltu'r grwpiau hyn i erthyglau UNCRC ac i ddarparu cyfiawnhad hawliau dynol dros eu bodolaeth.

Roedd disgyblion hefyd yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddyfeisio **siartrau a rheolau'r ysgol**. Er enghraifft, mewn un ysgol, roedd siartrau dosbarth, siartrau ysgol gyfan, siartrau pêl-droed a siartrau amser cinio wedi eu hysgrifennu gan ddisgyblion a'u hadolygu'n flynyddol gan y disgyblion. Datblygodd ysgol arall ei werthoedd craidd trwy ymgynghori gyda disgyblion, gwarchodwyr a staff. Gofynnwyd i'r disgyblion sut oeddent eisiau i'w hysgol fod a pha briodweddau hoffent eu cael erbyn eu bod yn gadael ac fe gafodd hyn ei drosi i werthoedd yr ysgol. Adroddwyd bod mewnbwn i reolau a siartrau wedi ennyn cefnogaeth gan ddisgyblion wrth iddynt greu'r rheolau a gwerthoedd maent yn eu dilyn. Roedd hefyd yn sicrhau bod y dogfennau hyn yn hygyrch i'r disgyblion.

Roedd **dysgu a hyfforddiant dan arweiniad disgyblion** yn gyffredin. Darparodd y disgyblion ddyddiau HMS i staff ac arwain gwasanaethau ysgol. Disgrifiodd un athro sut roedd disgyblion hyn yn gyfrifol am arwain 'dyddiau croeso a phontio' i ddisgyblion ysgol newydd. Roedd disgyblion yn chwarae rôl bellach mewn gwerthuso. Mewn un ysgol, cyflawnodd y disgyblion archwiliad cwricwlwm RRSa UNICEF, gan arsylwi athrawon mewn gwersi a nodi ble gellid cysylltu eu gwaith i erthyglau UNCRC. Roedd hyn nid yn unig yn annog cyfranogiad y disgyblion, roedd hefyd yn helpu meithrin y berthynas rhwng disgyblion ac athrawon mewn modd oedd yn dangos parch tuag at ei gilydd. Bu disgyblion hefyd yn gwerthuso arolygon disgyblion a chyflwyno'r canlyniadau i uwch dimau arweinyddiaeth a llywodraethwyr.

3.4 Creu amgylchedd cynhwysol a theg

Nid ydym yn eithrio'n barhaol. Yr hyn sy'n wahanol iawn yma yw bod gennym uned gynhwysiant ar ddiwedd yr ysgol. Rydym yn falch iawn ein bod yn gant y cant gynhwysol fel ysgol, ac mae hynny oherwydd bod gan bob plentyn hawl i addysg. Dydych chi ddim yn rhoi plentyn i sefyll tu allan i ystafell ddosbarth, oherwydd yr eiliad y byddwch yn ei eithrio o'i ddysgu, rydych yn gwrthod yr hawl hynny iddo. – Athro yn Lloegr

Creu amgylchedd ysgol gynhwysol a theg ble mae plant yn cael eu trin yn gyfartal a gyda pharch oedd y cam terfynol o ran gweithredu ymagwedd hawliau dynol. Roedd dileu rhwystrau i ddysgu a **darparu cyfleusterau sy'n cefnogi amrediad eang o ddisgyblion** yn allweddol i hyn. Er bod cyfleusterau o'r fath yn bresennol mewn ysgolion sydd heb fabwysiadu HRE yn benodol, roedd ysgolion cyfranogol yn ystyried y rhain i fod yn angenrheidiol er mwyn cynnal hawl gyfartal plant i addysg. Roedd athrawon yn cydnabod eu hamrywiaeth eang o ddysgwyr yn cynnwys rhai gydag anghenion addysgol arbennig/anghenion cefnogaeth ychwanegol/anghenion dysgu ychwanegol (AAA/ACY/ADY);³ anghenion emosiynol a chymdeithasol; a Saesneg fel iaith ychwanegol. Cyferbynnwyd cefnogi'r holl ddisgyblion gydag ymagweddau 'dim goddefgarwch' mewn ysgolion eraill, ble byddai disgyblion wy trafferthus yn cael eu heithrio neu 'rholio i ffwrdd.' Nododd un athro bod hyn yn aml yn golygu bod y disgyblion mwyaf ynysig a bregus yn cael eu gwthio i'r ymylon.

I sicrhau amgylchedd cynhwysol, creodd ac ehangodd nifer o ysgolion **unedau cynhwysiant** ar gyfer disgyblion oedd dan risg o waharddiad. Roedd y darpariaethau ar y safle yma yn galluogi disgyblion i dderbyn cefnogaeth holistaidd gan athrawon, cyflawni asesiadau AAA/ACY/ADY a gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol a CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), cyn dychwelyd i'r ddarpariaeth ysgol prif ffrwd pan yn briodol. Crëwyd **canolfannau cymorth dysgu** hefyd ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol tu allan i addysg prif ffrwd.

³ Mae'r termau hyn yn cyfeirio at yr un peth ond fe'i gelwir yn anghenion addysgol arbennig (AAA) yn Lloegr, anghenion cefnogaeth ychwanegol (ACY) yn yr Alban ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru.

Roedd **rhaglenni a chyfleusterau bugeiliol cryf** wedi eu hanelu at sicrhau lles corfforol ac emosiynol disgyblion hefyd yn gyffredin. Ystyriwyd hyn i fod yn allweddol i ategu hawl pob plentyn i addysg gan fod gallu plentyn i ddysgu wedi ei gyfaddawdu os na flaenoriaethir ei les. Unwaith eto, er bod rhywfaint o ofal bugeiliol yn arferol yn y rhan fwyaf o ysgolion ym Mhrydain Fawr, roedd gan rai o'r rhai a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil bolisiau a gweithdrefnau pellgyrhaeddol. Er enghraifft, roedd un ysgol yn gweithredu amrywiaeth o fecanweithiau cymorth lles ar gyfer disgyblion, yn cynnwys tîm dysgu a meithrin, tîm lles, gweithiwr therapi creadigol, cynghorydd ysgol ar y safle parhaol a gweithiwr cymorth ymddygiad. Roedd athrawon hefyd yn cael sesiynau 'gwirio' rheolaidd gyda disgyblion ar ddechrau pob gwrs ble gofynnwyd i ddisgyblion raddio eu lles ar raddfa o un i bump.

Roedd mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol hefyd yn annog arweinwyr a staff ysgol i ailystyried eu hymagwedd tuag at ddisgyblaeth ac fe gyflwynodd nifer o ysgolion **ymagweddau adferol tuag at wrthdaro** mewn ymgais i leihau eithriadau ac ategu hawl disgyblion i gael eu trin gydag urddas a pharch. Mae ymagweddau adferol yn galluogi'r rhai sydd wedi eu niweidio i gyfleu effaith y niwed i'r rhai sy'n gyfrifol, ac i'r rhai sy'n gyfrifol i gydnabod yr effaith yma a chymryd camau i unioni. Hyfforddwyd saff a disgyblion i weithio'n adferol gyda'i gilydd ac fe'u hanogwyd i barchu syniadau a theimladau ei gilydd er mwyn datrys gwrthdaro. Disgrifiodd un athro hyn fel strategaeth dymor hir ar gyfer newid ymddygiad disgyblion gan ddadlau nad oedd offer eraill, fel gwahardd disgyblion, yn strategaeth effeithiol yn y tymor hwy.

Roedd **herio rhagfarn** yn elfen arall o adeiladu amgylchedd ysgol cynhwysol a theg. Roedd meithrin parch tuag at amrywiaeth yn rhedeg trwy'r holl gynlluniau gwaith a mentrau roedd yr ysgolion yn cymryd rhan ynddynt. Mewn un ysgol, newidiwyd digwyddiadau ymlyniad crefyddol i fod yn fwy cynhwysol ac i adlewyrchu amrywiaeth crefyddol yr ysgol. Yn wreiddiol byddai digwyddiadau ymlyniad crefyddol yn cael eu cynnal gan weinidog Cristnogol, gyda disgyblion yn gallu dewis optio allan. Fodd bynnag, yn dilyn awgrymiadau disgyblion, dechreuodd y digwyddiad ffocysu ar werthoedd yr ysgol, er enghraifft, cydraddoldeb. Gwahoddwyd gwahanol elusennau, grwpiau crefyddol, sefydliadau gwirfoddol a busnesau i sefydlu gorsafoedd yn ystafell ymlyniad yr ysgol y gallai disgyblion ymweld â hi i ddysgu am y gwerth hwnnw. Roedd hyn yn sicrhau 'yr un profiad i bawb, rhywbeth sy'n gynhwysol ac nad yw wedi ei gynllunio ar gyfer un is-set benodol o'n demograffig.' Mewn ysgol arall, sydd â phoblogaeth lai amrywiol o ran crefydd, gwnaethpwyd ymgais i amlygu disgyblion i wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau crefyddol trwy drefnu teithiau i wahanol addoldai.

Dehonglwyd bod gwneud hawliau dynol yn 'real' a pherthnasol i ddisgyblion yn bwysig o ran herio rhagfarn ac yn angenrheidiol i sicrhau nad oedd hawliau dynol yn ddim mwy na theori. I sicrhau hyn, gwnaeth yr athrawon ymdrech i weithio gyda grwpiau a oedd â phrofiadau uniongyrchol o wahaniaethu a gwahodd siaradwyr i rannu eu straeon o fywyd go iawn gyda disgyblion. Dehonglwyd gwirfoddoli ac ymgyrchu hefyd i fod yn ffyrdd i rymuso disgyblion i fod yn ddinasyddion sy'n parchu hawliau mwy gweithgar ac i symud hawliau o theori i weithredu.

Dilynodd ysgolion **ymagwedd leol, genedlaethol a rhyngwladol** i'r gwaith parchu hawliau. Roedd dysgu byd-eang yn chwarae rhan allweddol yn hyn. Er enghraifft, creodd ysgolion raglenni cyfnewid a phartneriaethau gydag ysgolion mewn gwahanol wledydd; trefnu digwyddiadau codi arian ar gyfer achosion rhyngwladol a dysgu disgyblion am wrthod hawliau ledled y byd. Cynhaliodd un ysgol 'wythnos ryngwladol' flynyddol i amlygu disgyblion i wahanol ddiwylliannau, ble roedd pob pwnc yn trefnu gwersi a gweithgareddau yn canolbwyntio ar wahanol wlad. Derbyniodd disgyblion 'stampiau' o bob gwlad y mynychont mewn 'pasbort byd-eang', ble roeddynt hefyd yn gallu nodi myfyrdod ar eu dysg a phrofiadau. Cymerodd ysgolion eraill ran mewn gwobrau ac achrediadau, er enghraifft, y gwobrau ysgol rhyngwladol sy'n anrhydeddu ysgolion sy'n dangos ymroddiad i ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ryngwladol. Daeth ysgol arall yn 'ysgol noddfa,' sy'n ail ategu ymroddiad yr ysgol i fod yn le croesawgar i bawb yn eu cymuned uniongyrchol ac estynedig.

Tra bod dysgu byd-eang yn allweddol i waith hawliau, pwysleisiodd ysgolion bwysigrwydd gweithio'n lleol a gwerth gwirfoddoli yn y gymuned. Dehonglwyd digwyddiadau ac ymgyrchoedd cymunedol i fod yn ffordd dda i gynnwys y gymuned ehangach mewn gwaith hawliau, rhywbeth yr ystyriai athrawon i fod yn anodd ei wneud yn gyffredinol. Mewn un ysgol, cynhwyswyd partneriaid cymunedol a grwpiau crefyddol ar y grŵp llywio HRE hefyd, fel bod gwaith sy'n parchu hawliau yn cynnwys pobl tu hwnt i iard yr ysgol. Ystyriwyd bod cysylltu hawliau dynol i brofiadau a chymunedau'r disgyblion hefyd yn ffordd allweddol i sicrhau bod hawliau'n parhau i fod yn berthnasol i ddisgyblion. I wneud hyn, defnyddiodd nifer o ysgolion setiau data lleol ac ystadegau rhanbarthol ar dlodi a digartrefedd yn ystod gwersi.

Bu ysgolion hefyd yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ar lefel genedlaethol, yn cynnwys yr ymgyrch Purple4Polio, Plant mewn Angen, Gwers Fwyaf y Byd UNICEF a Soccer Aid.

4 Beth mae ysgolion ei angen i weithredu addysg hawliau dynol yn llwyddiannus?

Gofynnem i athrawon beth oedd ei angen i weithredu ymagwedd hawliau dynol a'r rhwystrau a chyfleoedd a brofont wrth wneud hynny.

4.1 Arweinyddiaeth

Fe wnaeth hi [arweinydd y wobr ysgol sy'n parchu hawliau] ei yrru gyda'r disgyblion yn hytrach nag ar gyfer y disgyblion. Ac fe helpodd y disgyblion i fentro i arwain eu hunain. – Athro yn yr Alban

Mae uwch arweinyddiaeth gref yn allweddol i weithredu ymagwedd hawliau dynol. Roedd cefnogaeth y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn hanfodol ym mhob un o'r ysgolion i 'greu esiampl o'r brig' ac i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol. Roedd llwyddiant yr ymagwedd ym mhob un o'r ysgolion hefyd yn dibynnu ar un neu ddau o athrawon yn arwain cydlynid cyffredinol y gwaith hawliau. Yn gyffredinol fe ddisgrifiodd cyfranogwyr y cyfweiliad berson allweddol yn yr ysgol a oedd yn hanfodol i hybu'r ymagwedd hawliau dynol a nodi'r arwyddocâd bod y rhain yn uwch aelodau staff gyda lefel o awdurdod. Er bod cael person allweddol i hybu'r gwaith yn bwysig, rhybuddiodd athrawon y gall dilyniant elfennau penodol ddibynnu'n ormodol ar un aelod o staff gan fynd ar chwâl os bydd yr aelod o staff yna'n gadael. Deliodd rhai arweinyddion ysgol gyda'r her hon trwy ddatblygu cynllun parhad.

Roedd athrawon o ysgolion yn Lloegr yn cydnabod bod gan academïau ac ymddiriedolaethau academi yn aml flaenoriaethau arweinyddiaeth gwahanol, sy'n gallu ei gwneud yn anodd gweithredu ymagwedd hawliau dynol. Mae gan academïau sy'n rhan o ymddiriedolaethau aml academi lai o annibyniaeth nag ysgolion cyfun i gyflwyno eu polisiau ac ymagweddau eu hunain, sy'n heriol os nad oes fawr o awydd ar lefel ymddiriedolaeth. Felly mae'n bwysig gweithio gydag ymddiriedolaethau academi i ehangu HRE ar draws y sector.

4.2 Capasiti

Ni fyddai'n bosibl gwneud [ymagwedd hawliau dynol] mewn modd allgyrsiol. Mae'n gweithio pan fydd gennych chi'r capasiti i'w wneud, ond mae hyn yn mynd ag amser yr athro. – Athro yn Lloegr

Dwi'n meddwl bod cymaint o bwysau ar ysgolion i wneud yn dda yn academiaidd fel bod yna farn, dwi'n credu, na allwn ofyn i staff wneud mwy nag y maent. Mae nhw eu hangen yn y dosbarth yn dysgu'n dda iawn o hyd, ac mae'r pethau yma yn mynd i orfod aros. – Athro yn Lloegr

Gall mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol ysgol gyfan gymryd cryn dipyn o amser a chynllunio, yn arbennig yn ystod camau cyntaf y broses. Rhaid hefyd neilltuo amser ar gyfer hyfforddiant staff i ddatblygu iaith hawliau ac i'w ymgorffori'n llawn i arferion dysgu. Nododd athrawon a gymerodd ran yn yr ymchwil eu bod wedi cael amser gan eu hysgol i ymroi'n llwyr i weithredu'r HRE, a arweiniodd at ei lwyddiant. Fodd bynnag, gallai capasiti cyfyngedig yn yr ysgol ei wneud yn llai deniadol i ysgolion eraill. Adroddodd nifer o gyfranogwyr cyfweiliad bod datblygiad cyfan y plentyn a HRE yn aml yn cael y 'sedd gefn' i flaenoriaethau eraill mewn ysgolion, sef canlyniadau arholiad a chyrhaeddiad. Yn aml mae'r pwysau ar uwch dimau arweinyddiaeth i ffocysu ar hyn yn golygu nad oes fawr o le i ysgolion ganolbwyntio ar ymagweddau mwy holistaidd eraill.

4.3 Arian

Rydym yn gynhwysol, ac fe ddylem fod yn gynhwysol. Ond dwi'n meddwl o beth mae pobl eraill yn ei ddweud wrtha i, mae'n dod yn anoddach. Felly, er bod ganddon ni well systemau a bod ganddon ni well diwylliant ar gyfer gwneud hynny, mae llai o arian hefyd. Felly dyna'r heriau rydyn ni'n delio â nhw. – Athro yng Nghymru

Er nad RRSA UNICEF yw'r unig ffordd i fabwysiadu HRE, roedd pob un o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn wedi cymryd rhan yn y broses achredu yma, sydd â chostau cysylltiedig.⁴ Derbyniodd rhai ysgolion yng Nghymru a'r Alban gymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol i gymryd rhan yn yr RRSA, ac ni fyddent wedi gallu ei fforddio heb hyn. Ni ddarparwyd cyllid tebyg gan awdurdodau lleol i'r ysgolion yn cymryd rhan yn Lloegr, ac fe nododd athrawon y gallai arian fod yn rhwystr i wahanol ysgolion.

Er y gellir gweithredu ymagwedd hawliau dynol i addysg am gost isel, roedd athrawon yn cydnabod y gallai agweddau penodol fod angen adnoddau er mwyn eu cyflawni'n gynhwysfawr ac effeithiol. Er enghraifft, mae angen adnoddau ariannol i ddarparu'r amrywiaeth o gyfleusterau a amlinellwyd yn flaenorol ac i ddarparu hyfforddiant athrawon. Er yr ystyriwyd bod y buddsoddiadau hyn yn angenrheidiol, yn arbennig yn wyneb disgyblion gydag ymddygiadau mwy heriol, adroddodd athrawon fod adnoddau ysgolion hefyd yn gynyddol gyfyngedig a'u cyllidebau'n lleihau.

4.4 Dealltwriaeth o hawliau plant a HRE

Roeddwn yn gwybod yn fras amdano, hawliau'r plentyn, ond doeddwn i ddim wedi cael yr hyfforddiant, na'r ddealltwriaeth glir ynghylch yr erthyglau a sut y gellir eu hategu ar draws eich cwricwlwm. Felly, mae hynny wedi bod yn beth positif iawn ynghylch dod yma [i ysgol sy'n parchu hawliau] a gweld beth sy'n digwydd. – Athro yng Nghymru

Cynorthwyodd dealltwriaeth o'r UNCRC a HRE ymysg staff a disgyblion ymagwedd hawliau dynol mewn nifer o ysgolion. Ar draws y tair gwlad, roedd rhai awdurdodau lleol yn annog ysgolion cynradd ac uwchradd i geisio RRSA, tra mewn rhai eraill roedd hyn wedi ei dargedu ar lefel uwchradd yn unig. Mewn ysgolion oedd ag ysgolion cynradd bwydo sy'n parchu hawliau, nododd athrawon y fantais o gel disgyblion gyda rhywfaint o brofiad blaenorol o'r ymagwedd hwn. Mewn ysgolion ble nad oedd hyn yn wir, awgrymodd athrawon y byddai'n ddefnyddiol ac ail ategu'r budd o gynnwys disgyblion mewn addysg hawliau dynol o oedran ifanc.

⁴ Mae'r RRSA wedi ei rannu yn wobrau efydd, arian ac aur. Mae pob cam yn costio rhwng £100 a £1,500 yn ddibynnol ar y nifer o ddisgyblion. Mae'r ffi ar gyfer ail achrediad fel ysgol Aur, sydd angen i gwblhau pob tair blynedd, rhwng £138 a £1,350.

Roedd cyfranogwyr hefyd yn cydnabod manteision dealltwriaeth flaenorol o HRE ymysg athrawon. Yng Nghymru a Lloegr, adroddwyd bod gan athrawon raddau amrywiol o ddealltwriaeth ynghylch UNCRC yn gychwynnol, ac nad oedd nifer yn teimlo'n barod i ddysgu HRE. Mynegodd rhai o'r athrawon a gymerodd ran yn yr ymchwil rwystredigaeth nad oedd yr UNCRC yn hysbys iawn nac yn cael ei hyrwyddo, o ystyried ymroddiad y Deyrnas Unedig i'w gynnal. Roeddynt hefyd yn cydnabod nad oedd digon o ymwybyddiaeth o RRSA UNICEF.

Yn yr Alban roedd yna fwy o ymwybyddiaeth o'r UNCRC ymysg staff ysgol, o ystyried ei fod yn cael ei grybwyll yn benodol yng ngofynion Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTCS). Mae'r GTCS yn gofyn i holl athrawon yr Alban fodloni gwerthoedd proffesiynol a gwneud ymroddiad personol er mwyn bod yn athro cofrestredig. Un o'r gofynion hyn yw bod yn rhaid i athrawon 'Barchu hawliau pob dysgwr fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'u hawl i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau parthed eu profiadau dysgu ac i gael datblygu a chefnogi pob agwedd ar eu lles' (GTCS, 2012).

4.5 Cefnogaeth gan gymuned yr ysgol

Dwi'n cofio pan ddechreuon ni, allwn ni ddim cael yr holl adrannau i gymryd rhan, oherwydd fe ddywedodd rhai o'r adrannau bod ganddyn nhw [y disgyblion] ormod o hawliau'n barod, dyna ble'r oedden ni. – Athro yn yr Alban

Mae cefnogaeth gan staff, disgyblion a'r gymuned ysgol ehangach yn angenrheidiol i weithredu HRE yn llwyddiannus, fodd bynnag, gall ysgolion wynebu anhawster o ran cael pawb i gefnogi'r ymagwedd. Roedd rhai athrawon yn cydnabod gwrthwynebiad ymysg aelodau staff eraill a rhoddwyd nifer o resymau gwahanol dros hyn. Adroddwyd nad oedd rhai aelodau staff yn gweld unrhyw werth mewn ymagwedd hawliau dynol gan gredu bod angen i ddisgyblion ennill eu hawliau.

Adroddodd athrawon hefyd bod yna bryder cychwynnol ynghylch effaith HRE ar ymddygiad disgyblion, gyda rhai staff yn pryderu y gallai dysgu disgyblion am eu hawliau achosi iddynt fod yn rhy groyw ac anodd eu rheoli. Er bod athrawon wedi adrodd fod ymagwedd hawliau dynol wedi gwella ymddygiad disgyblion yn gyffredinol, roedd rhai athrawon yn teimlo ei bod yn her ymateb i ddisgyblion a oedd yn crybwyll eu hawliau wrth amharu ar ddysgu. Roedd sicrhau bod disgyblion yn deall cydbwysedd eu hawliau nhw a phobl eraill yn allweddol i ddatrys y mater hwn. Mewn nifer fechan o ysgolion, adroddwyd hefyd fod staff yn anfodlon gyda sut y rheolwyd yr ymagwedd, gydag un ysgol yn darparu enghraifft o athrawon yn teimlo dan bwysau i fabwysiadu ymagwedd newydd mewn cyfnod byr o amser.

Yn aml roedd profiadau o wrthwynebiad yn cael eu trechu gan newid graddol yn ethos yr ysgol. Yn yr Alban, roedd y safonau GTCS ar gyfer cofrestrriad yn fodd i ymgysylltu athrawon yn effeithiol gyda HRE ac i sicrhau cefnogaeth ar gyfer yr ymagwedd. Gallai arweinwyr ysgolion fframio HRE fel rhan o ddysgu proffesiynol a rhywbeth roedd angen i athrawon fod yn ymwybodol ohono.

Roedd athrawon hefyd yn cydnabod her barhaus o ran sicrhau nad yw cyfranogiad disgyblion yn rhywbeth a gyflawnir gan mae grŵp dethol o gynrychiolwyr disgyblion yn unig. Tra bod ysgolion yn llwyddiannus o ran cynnwys disgyblion mewn HRE, roedd athrawon yn cydnabod ei bod yn anodd cyrraedd pob disgybl, yn arbennig y rhai a oedd eisoes wedi ymddieithrio. Adlewyrchwyd hyn yn yr ymatebion i arolygon gyda nifer fechan o ddisgyblion yn awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau y gall pob disgybl fwydo i mewn i benderfyniadau. Awgrymodd un ysgol y byddai darparu cyfleoedd amrywiol a gwahanol i gymryd rhan yn helpu trechu hyn.

Roedd hefyd yn anodd cael cefnogaeth cymuned gyfan yr ysgol, yn cynnwys disgyblion, staff, gwarchodwyr a llywodraethwyr ysgol (yng Nghymru a Lloegr) ar adegau. Roedd yr holl ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil yn ysgolion uwchradd ac fe nododd athrawon, o ystyried y poblogaethau cymharol fawr o ddisgyblion, fod cefnogaeth gan yr ysgol gyfan yn fwy o her nag ar lefel ysgol gynradd.

4.6 Cefnogaeth llywodraeth genedlaethol a lleol

Pan wnaethom lansio [yr RRSA] yn wreiddiol, gofynnwyd i mi ei wneud mewn diwrnod staff mewn gwasanaeth [...] roeddwn i'n sicr yn ei gysylltu i Lywodraeth yr Alban, mae hyn yn rhywbeth y dylai pob ysgol fod yn ei wneud – Athro yn yr Alban

Mae cefnogaeth llywodraeth, yn lleol a chenedlaethol, yn bwysig o ran hwyluso ysgolion i fabwysiadu a mewnosod ymagwedd hawliau dynol. Gall llywodraethau annog ysgolion i ddilyn yr ymagwedd hon, darparu hyfforddiant neu gyllid ar gyfer yr achrediad UNICEF a chreu cefnogaeth ac ymroddiad ar gyfer HRE trwy bolisïau llywodraeth. Fodd bynnag, mae yna wahaniaethau o ran cefnogaeth y llywodraeth i HRE, ar draws y tair gwlad, ac mae hyn wedi arwain at wahanol brofiadau i ysgolion ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban.

Yr Alban

Cydnabu athrawon o ysgolion yn yr Alban yr amrywiol ffyrdd mae Llywodraeth yr Alban wedi hwyluso mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol. Cyfeiriwyd yn benodol at bolisi Llywodraeth yr Alban, 'Getting it Right for Every Child' (GIRFEC). Mae GIRFEC, a adeiladwyd o'r UNCRC, yn rhoi lles a hawliau plant yn ganolog i lunio polisi a chyflawni gwasanaeth yn yr Alban, yn cynnwys addysg. Roedd Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014 hefyd yn gosod elfennau allweddol o'r GIRFEC mewn statud. Roedd athrawon a oedd wedi dysgu mewn ysgolion cyn cyflwyno GIRFEC yn cydnabod fod y polisi hwn wedi cyfrannu at newid mewn diwylliant, a oedd wedi gwneud athrawon yn fwy agored i ymagwedd hawliau dynol.

Roedd pob un o'r ysgolion yn yr Alban hefyd wedi derbyn anogaeth gan eu hawdurdodau lleol i fabwysiadu ymagwedd hawliau dynol. Roedd sut oedd awdurdodau lleol yn darparu'r gefnogaeth yma yn amrywiol. Gosododd rhai awdurdodau dargedau i bob ysgol gyflawni gan RRSA erbyn amser penodol, ac roedd eraill yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i ysgolion weithredu ymagwedd hawliau dynol. Yn yr Alban, mae cyllidebau a blaenoriaethau ysgolion wedi eu gyrru, i raddau, gan awdurdodau addysg sy'n rôl i'r awdurdod lleol ar hyn o bryd. Felly, mae cefnogaeth yr awdurdod lleol yn allweddol i ysgol allu ariannu'r RRSA yn yr Alban. Efallai bod y rhesymeg dros gefnogaeth awdurdod lleol, yn ariannol ac yn strategol, yn fwy amlwg yn yr Alban o ganlyniad i gefnogaeth Llywodraeth yr Alban i HRE. Yn 2014, darparodd Llywodraeth yr Alban gyllid i UNICEF UK ar gyfer dwy swydd ar secondiad i annog awdurdodau lleol yn yr Alban i anelu at RRSA (Jerome et al., 2015). Nod y cyllid oedd sicrhau bod 50% o'r holl ysgolion yn yr Alban yn derbyn y wobwr.

Cymru

Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil yng Nghymru hefyd wedi eu hannog neu ariannu gan awdurdodau lleol i gymryd rhan yn yr RRSA. Adroddodd un athro er bod ei awdurdod lleol wedi rhoi'r gorau i ddarparu cyllid ysgolion gymryd rhan yn y wobwr, eu bod wedi dechrau darparu hyfforddiant mewnol i ysgolion ar ymagwedd hawliau dynol. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod gan wahanol awdurdodau lleol wahanol flaenoriaethau ac, er bod rhai rhanbarthau yng Nghymru yn arwain ar yr agenda hwn, nid oedd eraill yn hyrwyddo HRE. Crybwyllwyd Comisiynydd Plant Cymru hefyd fel ffactor allanol pwysig oedd yn cynorthwyo mabwysiadu gweithredu ymagwedd hawliau dynol yn yr ysgolion yng Nghymru.

Lloegr

Darparodd athrawon o ysgolion yn Lloegr wedd wahanol, gan nodi diffyg cefnogaeth gan lywodraeth fel rhwystr. Roedd hyn wedi ei briodoli i ddehongliad ymysg llywodraeth nad oedd cysylltiad digonol rhwng HRE a chyrhaeddiad academaidd. I sicrhau HRE, nododd athrawon angen i berswadio llywodraeth

ganolog o'i effaith posibl trwy dystiolaeth ei fod yn gweithio. Er i nifer o athrawon sôn am effaith bositif yr ymagwedd hon ar gyrhaeddiad, roeddynt hefyd yn cydnabod ei bod yn anodd iawn darparu tystiolaeth o hyn ac i briodoli gwelliannau n gyfan gwbl i gyflwyno HRE. Er yr ystyriwyd bod dod â'r dystiolaeth yma ynghyd yn strategol bwysig i ddylanwadu ar lywodraeth ganolog, roedd athrawon hefyd wedi nodi'r perygl o ran rhoi gormod o ffocws ar effaith HRE ar gyrhaeddiad, o ystyried pwysigrwydd HRE ynddo'i hun. Er bod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr wedi darparu cefnogaeth a chyllid i ysgolion, nid oedd yr un i'r ysgolion a gymerodd ran yn Lloegr wedi derbyn y gefnogaeth hon.

4.7 Cwricwlwm cenedlaethol cefnogol

Roedd consensws bod gwneud HRE yn rhan o'r cwricwlwm gofynnol yn darparu ysgogiad cryf a chefnogaeth i ysgolion ei fewnosod ac fe soniodd athrawon am y gwahanol gyfleoedd a ddarperir gan y cwricwlwm cenedlaethol i fabwysiadu HRE.

Yr Alban

Mae'r cwricwlwm a'r holl newidiadau eraill sydd wedi dod yn sicr wedi gwneud hynny [dysgu HRE] yn llawer haws. A gydag unrhyw athrawon sy'n dod i mewn nawr, myfyrwyr dysgu, mae hynny'n rhan o'r hyn maent yn ei wneud o ddydd i ddydd, ond mae'r newid yna wedi cymryd dipyn o amser. – Athro yn yr Alban

Yn yr Alban, mae'r Cwricwlwm Rhagoriaeth, yn ogystal â pholisïau'r llywodraeth fel GIRFEC, wedi creu amgylchedd a oedd yn hwyluso HRE. Mewnosodwyd agweddau o addysg hawliau dynoli'r cwricwlwm ac archwiliadau Education Scotland. Er bod athrawon yn yr Alban yn bositif ynghylch rôl y cwricwlwm ac arolygiaethau, cynghorwyd un ysgol gan Education Scotland eu bod yn canolbwyntio'n ormodol ar hawliau dynol ac y dylent ganolbwyntio mwy ar bolisïau eraill fel GIRFEC. O ystyried bod gwerthoedd GIRFEC yn alinio gyda HRE, byddai ysgolion ac arolygiaethau yn elwa o rannu iaith a fframwaith yn ffocysu ar hawliau dynol.

Lloegr

Rhaid i chi ei flaenoriaethu [HRE] ac oni bai ei fod yno fel rhywbeth sy'n statudol, efallai bod ysgolion eraill yn ei chael yn anodd iawn. – Athro yn Lloegr

Mewn cyferbyniad, soniodd athrawon o Loegr am yr anawsterau fyddai gan ysgolion eraill o ran blaenoriaethu HRE o ystyried nad yw'n rhan ofynnol o'r cwricwlwm ysgol nac wedi ei gynnwys mewn fframweithiau arolygiaeth. Unwaith eto, adroddodd ysgolion wrthdaro rhwng gweithredu a chyfiawnhau ymagwedd hawliau dynol a darparu blaenoriaethau ysgol neu gwricwlwm.

Dehonglwyd bod gan Ofsted, y corff arolygu yn Lloegr, rhywfaint o gyfrifoldeb dros y gorbwyslais ar gyrhaeddiad academaidd mewn ysgolion ar draul cwricwlwm mwy holistig, gan gynnwys HRE. Adroddodd athrawon bod y meini prawf mae Ofsted wedi defnyddio'n draddodiadol i farnu ysgolion yn rhy aflem ac yn canolbwyntio'n ormodol ar ganlyniadau arholiad. Mae'r ffocws hwn wedi cael effaith niweidiol, gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn culhau eu cwricwlwm cyffredinol i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyrhaeddiad academaidd. Roedd athrawon hefyd yn adrodd bod ysgolion uwchradd eraill yn byrhau eu cyfnod allweddol tri i sicrhau bod disgyblion yn cael blwyddyn ychwanegol i astudio yn ystod cyfnod allweddol pedwar (gweler yr Atodiad am fanylion ar y cwricwla cenedlaethol).

Nododd athrawon y gallai'r newidiadau yn y fframwaith Ofsted annog ysgolion yn Lloegr i ffocysu ar gwricwlwm mwy eang a holistig, yn cynnwys addysg hawliau dynol. Newidiodd trefniadau arolygu newydd Ofsted, a ddaeth i rym ym Medi 2019, i gyflwyno dyfarniad 'ansawdd addysg' newydd. Nod y mesur fframwaith newydd oedd sicrhau bod arolygwyr Ofsted yn treulio llai o amser yn edrych ar ddata canlyniadau arholiadau a phrofion, a mwy o amser yn ystyried sut oedd ysgolion wedi cyflawni eu canlyniadau (Ofsted, 2019). Hynny yw, 'os ydynt o ganlyniad i gwricwlwm eang, cyfoethog a dysgu gwirioneddol, neu i ddysgu i stwffio pennau ar gyfer prawf neu arholiad' (ibid). Nododd athrawon o ysgolion yn Lloegr hefyd y gallai hyrwyddo 'cyfalaf diwylliannol' gan Ofsted greu cyfleoedd i ysgolion fabwysiadu ymagwedd fwy holistig i addysg.

Cymru

Dwi'n credu ei fod wedi ei adael i arweinyddiaeth yr ysgol fwy na heb. Os oedd yn rhywbeth oedd yn uchel ar eich agenda, neu'ch bod yn ei ddeall [...] Ond nawr, dan y cwricwlwm newydd ble mae'n ei wneud yn statudol, bydd yn digwydd. – Athro yng Nghymru

Soniodd athrawon o ysgolion yng Nghymru hefyd am yr amharodrwydd posibl gan ysgolion eraill yng Nghymru i fabwysiadu HRE, o ystyried nad yw'n ofynnol. Fodd bynnag, roeddynt yn optimistaidd ynghylch y cyfleoedd fydd y Cwricwlwm i Gymru newydd (2022) yn darparu. Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac annibyniaeth i ysgolion ac athrawon trwy chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' (MDPh): Celfyddydau mynegol; Iechyd a lles; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu; Mathemateg a rhifedd a Gwyddoniaeth a thechnoleg (gweler yr Atodiad am ragor o fanylion ar y Cwricwlwm i Gymru newydd).

Dywedodd athrawon bod y cwricwlwm newydd yn rhoi ffocws cryf ar hawliau, yn arbennig yn y Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Dyniaethau, a fydd yn annog ysgolion i'w hintegreiddio i ddysgu. Nodwyd yr MDPh 'Iechyd a lles' fel maes arall ble ceir cyfleoedd arwyddocaol i ysgolion ddysgu am hawliau dynol ac empathi, gydag un athro yn ystyried hyn yn allweddol i ymagwedd hawliau dynol.

5 Beth yw effaith addysg hawliau dynol?

Gofynnem i'r athrawon am effaith HRE a sut maent yn mesur hyn.

5.1 Gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb

Rydym wedi mynd o, yn yr ardal hon, yr ysgol gyda'r perfformiad isaf pum mlynedd yn ôl i'r ysgol annetholus sy'n perfformio orau yn yr ardal. Ac mae bod yn ysgol sy'n parchu hawliau wedi bod yn rhan fawr o hynny. [...] Er mwyn i ddisgyblion sicrhau gwell cyrhaeddiad, yn gyntaf mae angen o leiaf gwerthfawrogi pwysigrwydd addysg. – Athro yn Lloegr

Ein data presenoldeb – rydym wedi gwella'n sylweddol. Ac er bod presenoldeb ysgolion eraill yn y rhanbarth wedi gostwng, mae ein un ni wedi parhau i godi. Felly yn nata Llywodraeth Cymru, rydyn ni uwchlaw ein model. Mae ein presenoldeb yn bositif, rydyn ni yn yr hanner uchaf o ysgolion. – Athro yng Nghymru

Adroddodd athrawon welliant arwyddocaol mewn cyrhaeddiad yn dilyn mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol. Er bod hyn yn anodd ei briodoli'n gyfan gwbl i HRE, o ystyried ymyraethau eraill a wnaed gan ysgolion, roedd athrawon ar draws y tair gwlad yn cydnabod gwelliannau mesuradwy o gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn mabwysiadu'r ymagwedd hon. Adroddodd y rhan fwyaf o athrawon welliant nodedig ym mhresenoldeb disgyblion, ond fe wnaethant hefyd gydnabod yr anhawster o ran priodoli hyn yn uniongyrchol i'r ymagwedd hawliau dynol. Fe wnaeth rhai ysgolion ddarparu ystadegau i ddangos gwelliant o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a hefyd o gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal leol.

Yn fwyaf cyffredin, priodolwyd y gwelliannau hyn i'r newid cyffredinol yn amgylchedd yr ysgol a chreu ethos sy'n parchu hawliau. Roedd athrawon yn cydnabod fod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, wedi eu gwerthfawrogi a'u parchu, gan gysylltu hyn i gynnydd mewn disgyblion yn mynychu dosbarthiadau. Roedd athrawon hefyd yn cydnabod bod yr ymagwedd newydd yn caniatáu i ddisgyblion werthfawrogi pwysigrwydd addysg, oedd yn effeithio ymhellach ar gyrhaeddiad.

5.2 Lleihau rhagfarn ac agweddau gwahaniaethol

Rydym yn ddiwylliannol amrywiol iawn fel ysgol, heb unrhyw achosion o ddiwyddiadau hiliol. Prin iawn. Mae gennym ni gofrestr hiliaeth y byddwn yn gadw, ac ers dechrau'r stwff hunan-barch, mae hynny wedi lleihau. – Athro yng Nghymru

Roedd herio gwahaniaethu a meithrin amgylchedd ysgol cynhwysol yn gydran allweddol o waith parchu hawliau yr oedd ysgolion a gymerodd rhan yn cyflawni. Mynegodd athrawon awydd pendant i ddarparu disgyblion â'r offer a phrofiadau angenrheidiol i fod yn ddinasyddion goddefgar, sy'n parchu hawliau a chynnal nifer o fentrau oedd yn ceisio cyflwyno disgyblion i wahanol ddiwylliannau, traddodiadau a ffyrdd o feddwl. Adroddodd athrawon bod hyn wedi cael effaith positif, gan ddatgan bod disgyblion yn fwy 'allblyg' ac yn ymgysylltu'n fwy gyda ha# o ganlyniad. Adroddodd un ysgol leihad mewn defnydd o iaith homoffobig ymysg disgyblion. Roedd yr ymatebion i'n harolwg disgyblion yn ategu hyn, gyda disgyblion yn datgan bod HRE wedi agor eu llygaid i hawliau dynol a'r gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau bod gan bawb fynediad i'w hawliau yn lleol a ledled y byd.

Gwelodd ysgolion gyda phoblogaethau amrywiol o ran ethnigrwydd a chrefydd gorff myfyrwyr mwy cydlynol ac integredig o ganlyniad i HRE, ac roedd athrawon yn positif ynghylch ei botensial i sicrhau perthnasau da ac integreiddiad rhwng gwahanol grwpiau mewn ysgolion eraill. Mewn un ysgol, arddangoswyd lleihad mewn agweddau gwahaniaethol gyda lleihad mewn digwyddiadau hiliol. Roedd ymagwedd hawliau dynol hefyd wedi helpu meithrin naws gymunedol a theimlad o berthyn mewn ysgolion. Roedd yr ymagwedd parchu hawliau yn rhywbeth y gallai disgyblion (a staff) o wahanol ardaloedd, cefndiroedd ethnig a chrefyddau uno o'i amgylch.

Roedd rhai athrawon hefyd yn cydnabod fod ymagwedd hawliau dynol yn eu galluogi i ddarparu neges foisol gyson i ddisgyblion. Fel ysgolion anenwadol, roeddynt yn teimlo bod hyn yn bwysig c yn nodi fod ysgolion ffydd yn aml yn fwy allblyg ynghylch integreiddio neges foisol ar draws yr ysgol a chwricwlwm.

5.3 Gwelliant yn ymddygiad disgyblion

Yn ymddygiadol, fe welsom welliant nodedig pan wnaethom tuag at ymarfer adferol, oedd o ganlyniad uniongyrchol i ddangos parch tuag at ein disgyblion a siarad am hawliau. Mae'r ymagwedd honno wedi gwneud gwahaniaeth, yn sicr. Fyddwch chi ddim yn clywed neb yn gweiddi ar ddisgyblion yma. Mae yna'r hawl yna i gael eich disgyblu gydag urddas, ac nid cael rhywun yn gweiddi yn eich wyneb yw hynny. Mi fedra i ddweud yn uniongyrchol bod hynny oherwydd bod yn ysgol sy'n parchu hawliau, ac i ddysgu am hawliau. – Athro yn Lloegr

Mi fyddwn i'n dweud ei fod wedi effeithio ar bopeth. Cyfraddau gwahardd, heb os. Gallwch chi weld yn yr ystadegau, cyn gynted ag y dechreuom y wobr [RRSA] yna. – Athro yn yr Alban

Adroddodd athrawon welliant nodedig yn ymddygiad disgyblion a lleihad mewn gwrthdaro yn y rhan fwyaf o ysgolion. Roedd hyn hefyd yn arwain at leihad mewn gwaharddiadau yn y rhan fwyaf o achosion. Priodolwyd y gwelliannau hyn yn gyffredinol i'r ethos parchu hawliau, y gwerth a roddir ar barch tuag at ei gilydd a goddefgarwch ar draws yr ysgol ac i'r newid tuag at ymagweddau adferol i wrthdaro. Roedd gwelliant mewn ymddygiad hefyd yn gysylltiedig i gynnydd mewn cyfranogiad disgyblion a mewnbwn i wneud penderfyniadau. O ystyried yr ymgynghorwyd yn rheolaidd gyda disgyblion ar bolisïau'r ysgol gan gydweithredu'n aml ar gynllunio rheolau'r ysgol, roedd gwelliant o ran dilyn rheolau a pholisïau.

Adroddodd nifer fechan o ysgolion leihad mewn bwlio yn ôl mesur systemau cofnodi mewnol yr ysgolion. Nodwyd hefyd bod ymagwedd hawliau dynol wedi hwyluso gwell perthnasau rhwng staff a disgyblion sydd wedi arwain at ddisgyblion yn teimlo'n fwy abl i adrodd am fwlio a chred y byddant yn cael gwrandawriad ac y gweithredir i ddelio â'r mater.

5.4 Gwelliant yn lles, ymgysylltu a hyder disgyblion

Trwy ddysgu am hawliau dynol, mae wedi rhoi rhyddid i mi fynegi fy syniadau ac wedi rhoi syniad i mi o ran beth hoffwn i'w wneud yn y dyfodol [...] Mae fy hyder ac annibyniaeth wedi ehangu ac mae wir wedi rhoi hyder i mi fod yn fi fy hun. – Disgybl

Ran amlaf, adroddodd yr athrawon gynnydd yn lles disgyblion, a fesurwyd trwy arolygon disgyblion. Mae'r gwelliant yma wedi ei briodoli i welliant yn y berthynas rhwng athrawon a disgyblion, sy'n galluogi disgyblion i fod yn fwy hyderus wrth godi materion sy'n eu gofidion gydag athrawon. Yn ogystal, anogodd yr ymagwedd sy'n parchu hawliau a chyflwyno rhaglenni bugeiliol cryf y staff i holi disgyblion mwy am eu lles a hwyluso amgylchedd ysgol agored a chynhwysol.

Adroddodd yr athrawon gynnydd mewn ymgysylltu a chyfranogiad gyda disgyblion yn dilyn creu mecanweithiau llais y disgybl. Mae hyn wedi arwain at hyder ymysg disgyblion, yn arbennig wrth ymgysylltu mewn trafodaethau a dadleuon a gwell perthnasau rhwng disgyblion ac athrawon. Adlewyrchwyd y buddiannau hyn ymhellach mewn ymatebion i'n harolwg disgyblion. Teimlai nifer o ddisgyblion oedd yn ymwneud â grwpiau arweinyddiaeth disgyblion a chynghorau bod eu hunan-barch, hyder ac annibyniaeth wedi gwella o ganlyniad i'r cyfranogiad hwn. Roedd athrawon hefyd yn cydnabod bod yr RRSA yn cyflwyno nifer o gyfleoedd i ddisgyblion, yn arbennig y rhai sy'n Llysgenhadon Hawliau, na fyddai wedi bod ar gael iddynt fel arall. Cyflwynwyd y cyfleoedd hyn trwy waith eiriolaeth, er enghraifft, cafodd disgyblion gyfle i ymweld â Downing Street a chwrdd â gwleidyddwyr trwy'r gwaith hunan-barch.

5.5 Gwella recriwtio a dargadw athrawon

Mae'n helpu gyda recriwtio. Pam na fydddech chi eisiau mynd i ysgol sy'n edrych yn fanwl ar hawliau'r plentyn ac sy'n sicrhau bod ganddynt yr amodau dysgu gorau posibl yn yr ystafelloedd dosbarth. Felly mae fy nhrosiant staff yn llawer is nawr nag oedd pan gyrhaeddais yma. Oherwydd mae gennym ni'r hinsawdd yna sy'n well – Athro yn Lloegr

Adroddwyd gwelliant o ran dargadw a recriwtio staff mewn nifer fechan o ysgolion. Roedd athrawon yn priodoli hyn i'r gwelliant mewn ethos ac amgylchedd gwaith yn yr ysgol, gan gydnabod bod hyn yn arbennig o werthfawr o ystyried y prinder athrawon.

Casgliad

Mae addysg hawliau dynol yn bwysig er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o, ac wedi eu grymuso i weithredu ar, eu hawliau dynol. Mae HRE hefyd yn hawl ac wedi ei gynnwys mewn nifer o offerynnau hawliau dynol rhyngwladol allweddol yn cynnwys y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR), y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) a'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Felly, mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig rwymedigaeth ryngwladol i hyrwyddo HRE.

Er nad yw'n ofynnol i ysgolion fabwysiadu ymagwedd hawliau dynol, mae ganddynt ddyletswydd bositif i hyrwyddo cydraddoldeb a chydlyniant ymysg gwahanol grwpiau. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) yn gofyn i bob corff cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus dalu sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cydraddoldeb o ran cyfleoedd ac i feithrin perthnasau da. Mae'r cyfrifoldeb yma ar ysgwyddau pob ysgol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae hefyd yn gyfrifoldeb i'r Awdurdodau Addysg yn yr Alban. Gallai mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol tuag at addysg eu galluogi i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Mae gweithredu HRE hefyd yn gwneud synnwyr addysgol da. Mae ein casgliadau ymchwil yn arddangos effaith positif HRE ar ddisgyblion ac ysgolion. Mae athrawon wedi adrodd gwelliant mewn cyrhaeddiad a phresenoldeb; lleihad mewn rhagfarn ac agweddau gwahaniaethol; gwelliant yn ymddygiad disgyblion a lleihad mewn gwaharddiadau; gwelliant yn lles disgyblion ac ymddygiad disgyblion; a gwelliant mewn recriwtio a dargadw athrawon.

Mae ein hymchwil hefyd yn darparu enghreifftiau o sut mae 10 o ysgolion uwchradd ar draws Prydain Fawr wedi gweithredu HRE. Roedd creu ethos sy'n parchu hawliau, integreiddio hawliau dynol ar draws y cwricwlwm, meithrin cyfranogiad disgyblion a sicrhau amgylchedd dysgu cynhwysol a theg yn gamau allweddol ar gyfer ysgolion yn y broses hon. Gobeithiwn y bydd y camau hyn yn gallu bod yn dempled cychwynnol i ysgolion eraill sydd eisiau mabwysiadu'r ymagwedd hon.

Tra bod yr ymchwil yn arddangos sur mae ysgolion wedi mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol a manteision HRE, mae hefyd yn amlygu'r heriau wrth ddatblygu'r ymagwedd hon, sydd â goblygiadau ar gyfer ei ehangu ar draws y sector. Mae'n canfod bod cefnogaeth ar gyfer HRE yn parhau i fod yn ansefydlog hyd yn oed ymysg athrawon, uwch dimau arweinyddiaeth, llywodraethau lleol a chenedlaethol ac arolygiaethau. Os bydd HRE yn cael ei ddatblygu ar draws y sector, rhaid gwneud mwy i'w hyrwyddo ac i arddangos ei fanteision. Mae tystiolaeth bellach o effaith ymagwedd hawliau dynol yn bwysig yma, yn arbennig felly ei effaith tymor hwy, i ddarparu sylfaen dystiolaeth gref i ymarferwyr a llunwyr polisi.

Mae ysgolion yn gweithredu mewn cyd-destun o adnoddau a chapasiti cyfyngedig. Er bod sawl ffordd i ysgolion allu mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol, roedd yr ymchwil yma'n canolbwyntio ar y rhai oedd wedi eu hachredu gydag RRSA UNICEF. Mae hyn yn arwain at gost, ac mewn cyfnod pan fydd cyllidebau ysgolion yn lleihau, roedd athrawon yn cydnabod nad yw'r RRSA yn mynd i fod yn flaenoriaeth bob tro. Awgryma ein casgliadau hefyd bod datblygiad y plentyn cyfan ac addysg hawliau dynol yn aml yn cael eu hamddifadu o blaid blaenoriaethau eraill fel canlyniadau arholiadau a chyrhaeddiad mewn ysgolion eraill. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch natur a diben addysg yn fwy eang ac yn sôn am sgysiau parhaus ar draws y sector addysg.

Mae ein casgliadau ymchwil yn dynodi hefyd bod dealltwriaeth o HRE a'r UNCRC yn dal i fod yn anghyson. Mynegodd rhai o'r athrawon a gymerodd ran yn yr ymchwil rwystredigaeth nad oedd yr UNCRC yn hysbys iawn, o ystyried ymroddiad y Deyrnas Unedig i'w gynnal a'i hyrwyddo. Adroddwyd hefyd bod rhai staff mewn ysgolion a gymerodd ran yn teimlo nad oeddynt yn barod i ddysgu HRE, pan gyflwynwyd ymagwedd hawliau dynol yn wreiddiol. Yn yr Alban, fodd bynnag, roedd yna fwy o ymwybyddiaeth o'r UNCRC ymysg staff ysgol, o ystyried ei fod yn cael ei grybwyll yn benodol yng ngofynion Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban (GTCS). Mae hyn yn enghraifft ble gall y gwledydd eraill ddysgu ohoni. I godi ymwybyddiaeth a darparu athrawon â'r offer angenrheidiol i ddysgu ynghylch, trwy ac ar gyfer hawliau dynol, rhaid cynnwys HRE mewn hyfforddiant cychwynol athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD).

Yn allweddol, arddangosa ein casgliadau ymchwil bod cefnogaeth llywodraeth leol a chenedlaethol yn bwysig i drechu'r heriau hyn, gan amlygu bod cynnydd ar draws y tair gwlad wedi bod yn wahanol. Yn yr Alban a Chymru, cyflwynwyd mesurau cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r UNCRC a HRE. Yn fwyaf nodedig, mae Llywodraethau'r Alban a Chymru wedi, i raddau, integreiddio'r UNCRC i gyfraith ddomestig sydd wedi annog rhai awdurdodau lleol ac ysgolion i weld HRE yn rhan o'u cylch gorchwyl. Felly, mae awdurdodau lleol wedi bod yn allweddol o ran hybu'r ymagwedd yma yng Nghymru a'r Alban trwy ddarparu cyllid, hyfforddiant ac adnoddau. Nid yw hyn wedi bod yn wir yn Lloegr.

Mae llywodraethau cenedlaethol hefyd wedi ymateb yn wahanol i alwadau i wneud HRE yn ofynnol yn y cwricwla. Yn yr Alban, mae HRE wedi ei fewnosod yn y Cwricwlwm Rhagoriaeth ac arolygiadau Education Scotland, ac roedd athrawon yn nodi hyn fel ysgogiad i ysgolion ei ddysgu. Yng Nghymru a Lloegr, nid yw'r cwricwla cenedlaethol a fframweithiau arolygu yn darparu'r un ysgogiad. Fodd bynnag, mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd yn darparu cyfleoedd arwyddocaol i hyrwyddo a mewnosod HRE o ystyried bod HRE a'r UNCRC wedi eu hintegreiddio ar draws meysydd dysgu a phrofiad. Awgryma ein casgliadau ymchwil oni bai bod HRE yn rhan ofynnol o'r fframweithiau cwricwlwm ac arolygiaeth, y gallai ysgolion ei chael yn anodd blaenoriaethu a bydd yn parhau i fod yn ddyletswydd ar ysgolion unigol a hyrwyddwyr hawliau ymroddedig ynddynt i'w wthio ymlaen.

Atodiad - Cwricwla cenedlaethol

Lloegr

Rhaid i ysgolion a gynhelir yn Lloegr ddysgu'r pynciau yn y cwricwlwm cenedlaethol (DfE, 2014). Rhennir y cwricwlwm cenedlaethol yn bedwar cyfnod allweddol. Mae cyfnodau allweddol 3 a 4 yn cwmpasu lefel ysgol uwchradd. Y pynciau gofynnol yn y cwricwlwm cenedlaethol yn ystod cyfnod allweddol tri (blynyddoedd 7, 8 a 9) yw: Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth, iaith dramor fodern, dylunio a thechnoleg, celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol, dinasyddiaeth a chyfrifiadureg. Yn ystod cyfnod allweddol 4 (blynyddoedd 10 ac 11) mae'r pynciau cwricwlwm cenedlaethol gofynnol yn bynciau 'craidd' a 'sylfaen'. Y pynciau craidd yw Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth. Y pynciau sylfaen yw cyfrifiadureg, addysg gorfforol, dinasyddiaeth. Rhaid i ysgolion hefyd gynnig o leiaf un pwnc o bob un o'r tri maes canlynol: celfyddydau, dylunio a thechnoleg, dyniaethau, ieithoedd tramor modern.

Yn ogystal â'r cwricwlwm cenedlaethol, rhaid i ysgolion a gynhelir yn Lloegr ar lefel uwchradd hefyd gynnig rhaglen o addysg rhyw a pherthnasau (SRE) ac addysg grefyddol (RE) ar gyfer pob disgybl cofrestredig (DfE, 2014). Mae'r elfennau hyn, plws y cwricwlwm cenedlaethol, yn llunio'r cwricwlwm statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir. Yn 2015, pasiodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth yn gofyn am gynnig addysg perthnasau a rhyw diwygiedig ym mhob ysgol uwchradd. Y bwriad yw i'r R(S)E newydd ddechrau cael ei ddysgu o fis Medi 2020, yn dilyn ymgynghoriad a thrafodaeth seneddol. O fis Medi 2020, bydd hefyd yn ofynnol i bob ysgol ddysgu addysg iechyd.

Nid oes rhaid i academïau ac ysgolion rhydd ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, rhaid iddynt gynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwmpasu Saesneg, mathemateg a'r gwyddorau. Rhaid iddynt hefyd ddysgu RE ac, o fis Medi 2020, RSE ac addysg iechyd. Roedd addysg bersonol, gymdeithasol, iechyd ac economaidd (PSHE) yn ofynnol mewn ysgolion annibynnol cyn 2020 ac mae'n parhau i fod.

Cymru

Mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru (2008) yn gwricwlwm i ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed. Mae wedi ei rannu'n bedwar cyfnod; mae Cyfnodau allweddol 3 a 4 yn cwmpasu lefel uwchradd. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer cyfnod allweddol 3 (11–14 oed) yng Nghymru yn cynnwys y pynciau gofynnol canlynol: Saesneg, Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, addysg gorfforol ac iaith dramor fodern. Mae cyfnod allweddol 4 (14–16 oed) yn cynnwys Saesneg, Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. Mae hefyd yn ofynnol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru i ddarparu addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg rhyw ac yn ystod y trydydd a phedwerydd cyfnod allweddol, addysg yn gysylltiedig â gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru 2022 ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed. Nod y cwricwlwm newydd yw cefnogi dysgwyr i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru, 2020a). Mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac annibyniaeth i athrawon ac mae' cynnwys chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' (MDPh): celfyddydau mynegol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd a gwyddoniaeth a thechnoleg (ibid). Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Rhwydwaith Ysgolion Arloesi i beilotio'r cwricwlwm newydd a fydd yn cael ei weithredu ar draws yr holl ysgolion o 2022.

Yr Alban

Yn yr Alban, mae'r Cwricwlwm Rhagoriaeth, a gyflwynwyd yn 2010–11, yn darparu fframwaith ar gyfer dysgu ac addysgu yn hytrach na chwricwlwm cenedlaethol. Mae cyfrifoldeb am yr hyn a ddysgir yn eistedd gyda chynghorau ac ysgolion, er rhaid iddynt ystyried canllawiau a chyngor cenedlaethol. Mae'r Cwricwlwm Rhagoriaeth yn rhoi hyblygrwydd ac annibyniaeth i awdurdodau addysg ac ysgolion i alluogi pobl ifanc 3 i 18 oed i fod yn 'ddysgwyr llwyddiannus, unigolion hyderus, dinasyddion cyfrifol a chyfranwyr effeithiol' ar draws meysydd cwricwlwm penodol (Education Scotland). Yr wyth maes cwricwlwm yw celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; ieithoedd; mathemateg; addysg grefyddol a moesol; gwyddorau; astudiaethau cymdeithasol a thechnolegau (Education Scotland). Mae tri o'r meysydd cwricwlwm (Llythrennedd, Rhifedd ac Iechyd a Lles) yn arbennig o bwysig ac mae'r holl staff yn gyfrifol am ddarparu'r profiadau hyn a chyflawni'r deilliannau.

Atodiad 1: Canllaw cyfweiliad

Cyflwyniad

CYFLWYNO EICH HUN AC YMCHWIL HRE.

- **Nod yr ymchwil:** Diolch am gytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Yn rhan o'r prosiect hwn, rydym wedi nodi nifer o ysgolion ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban sydd wedi mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol i addysg ac rydym yn cynnal cyfweiliadau ansoddol gydag athrawon a phenaethiaid er mwyn pennu arfer da ac effaith.
- **Bydd y cyfweiliad yn ffocysu ar:**
 - Dealltwriaeth eich ysgol o addysg hawliau dynol
 - Ymagwedd eich ysgol i addysg hawliau dynol
 - Enghreifftiau o arfer gorau yn yr ysgol
 - Rôl y cwricwlwm
 - Y rhwystrau i fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol mewn addysg a'r heriau a wyneboch
 - Y cyfleoedd a hwylusodd fabwysiadu'r ymagwedd yma
 - Effaith addysg hawliau dynol
- Bydd eich ymatebion yn helpu rhannu dysgu a gwybodaeth am arfer da ar draws y sector i helpu ysgogi newid positif.
- Bydd y cyfweiliad yn cymryd oddeutu 60 munud i'w gwblhau yn ddibynol ar beth sydd gennych chi i'w ddweud.
- **Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** Dylech fod yn hyderus y bydd unrhyw beth a ddywedwch yn ystod y cyfweiliad n cael ei drin yn gwbl gyfrinachol. Bydd gwybodaeth am unigolion sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn ddiennw yn yr adroddiad terfynol. Efallai y bydd ysgolion yn cael eu henwi fel astudiaethau achos arfer da neu fel cyfranogwyr yn atodiad yr adroddiad, ond dim ond gyda chaniatâd y pennaeth o flaen llaw.
- Bydd recordiadau cyfweiliadau a chrynodebau yn cael eu cadw ar ardal mynediad cyfyngedig ar ein gweinydd fydd ar gael i'r tîm ymchwil yn unig. Mae ymchwil EHRC yn cydymffurfio'n llawn gyda deddfwriaeth GDPR.
- Sylwer bod yn rhaid i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol weithredu ar unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelu plant neu doriadau o'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mewn achlysur annhebygol pan fydd hyn yn digwydd, bydd yr hawl i gyfrinachedd yn cael ei ildio.
- A allwch chi gadarnhau'ch bod yn deall y datganiadau canlynol, ac os yn berthnasol, ddynodi eich bod yn fodlon bwrw ymlaen gyda'r cyfweiliad ar y sail yma:

- Rwy'n deall yr wybodaeth uchod ac yn cytuno'n wirfoddol i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon.
- Rwy'n cytuno i enw, manylion cyswllt ac ymatebion fy sefydliad gael eu storio gan yr EHRC.

[CYFWELYDD I OFYN A YW'R YMATEBWR YN HAPUS I BARHAU GYDA'R CYFWELIAD]

- 3) Dewisol: Rwy'n cydsynio i enwi fy sefydliad fel cyfranogwr mewn atodiad i'r adroddiad a gyhoeddir gan yr EHRC (ni enwir unrhyw unigolion).
- 4) Dewisol: Rwy'n cydsynio i ddatgelu fy sefydliad fel enghraifft o arfer da yng nghorff yr adroddiad neu mewn adroddiad astudiaethau achos cysylltiedig (byddwch yn cael cyfle i adolygu'r cynnwys cyn cyhoeddi, ac yn gallu gwneud yr achos yn un dienw ar yr adeg honno os dymunwch).

[CYFWELYDD I OFYN A YW'R YMATEBWR YN HAPUS I BARHAU GYDA'R CYFWELIAD]

Yn olaf, a oes gen i'ch caniatâd i recordio hyn? Mae hyn er mwyn i mi allu mynd dros fanylion yr hyn a ddywedoch heb orfod gwneud nodiadau maith. Dim ond ein tîm ymchwil yn EHRC fydd â mynediad i hyn.

A) Deall addysg hawliau dynol

- Beth yw eich dealltwriaeth o addysg hawliau dynol?
- Beth ydych chi'n credu yw'r elfennau allweddol o'r ymagwedd hawliau dynol?

B) Gweithrediad

Un o'r pethau y mae gennym ddiddordeb ynddo yw eich ymagwedd tuag at addysg hawliau dynol a sut ydych chi wedi gweithredu ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol.

- Sut ydych chi wedi integreiddio ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol yn eich ysgol?
 - Anogwyr: Ymagwedd ysgol gyfan neu seiliedig ar bwnc?
 - Newidiadau i reolau ffurfiol, polisïau, strwythurau, hyfforddiant, dogfennau ysgol?
 - Sut mae'r disgyblion wedi eu cynnwys yn y broses hon? Anogwyr: grŵp llywio disgyblion?
 - Sut ydych chi'n sicrhau bod ymagwedd hawliau dynol wedi ei fewnosod yn yr ysgol pan fydd disgyblion a staff yn newid yn rheolaidd?

- Gan feddwl am y syniad gwreiddiol i fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol, a oes yna unrhyw ffactorau allweddol a wnaeth eich annog neu ddylanwadu i wneud hynny?
 - Anogwyr posibl: y cyngor, ysgolion eraill yn yr ardal, anogaeth gan UNICEF, arweinyddiaeth y pennaeth?
- Sut wnaethoch chi alluogi'r athrawon yn yr ysgol i ddysgu am a thrwy hawliau dynol?
 - A oedd yr athrawon eisoes yn barod i ddysgu am, trwy ac ar gyfer hawliau dynol?
 - Ydych chi'n meddwl bod athrawon, yn gyffredinol, yn cael hyfforddiant digonol i allu dysgu am a thrwy ymagwedd hawliau dynol?

C) Enghreifftiau o arfer gorau

Diolch am eich holl atebion hyd yma. I bennu arfer da, byddai'n ddefnyddiol iawn i edrych ar beth mae'ch ysgol yn ei wneud yn dda.

- Gan feddwl yn gyffredinol am eich ymagwedd, pa elfennau neu fentrau ydych chi'n teimlo sydd wedi gweithio'n arbennig o dda ac/neu wedi bod yn arbennig o effeithiol?
 - Pam hynny?
- Ydych chi'n teimlo bod yna elfennau y gellid eu gwella neu a allai fynd yn well?
 - Pam hynny?
 - A oes gennyh chi gynlluniau i wella ar y rhain?

D) Y cwricwlwm

- Wrth ystyried addysg hawliau dynol, ydych chi'n meddwl ei fod yn lleoli'n haws o fewn pwnc (neu bynciau) neu faes cwricwlwm penodol?
 - Os felly, pa un (neu pa rai)? Pam?
 - Os nad, sut mae hyn wedi ei integreiddio ar draws y cwricwlwm?
- Ydych chi'n credu bod y cwricwlwm newydd i Gymru yn darparu gwell cyfleoedd ar gyfer HRE? Sut? (Cymru yn unig)

Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn os / sut y deliwyd â phynciau penodol wedi o safbwynt hawliau dynol a chydaddoldeb mewn ysgolion seiliedig ar hawliau dynol.

- A yw'ch ysgol yn defnyddio fframwaith hawliau dynol i ddysgu am...allwch chi roi enghreifftiau i ni...allwch chi anfon unrhyw ddeunyddiau i ni...
 - Perthnasau ac addysg rhyw
 - Dinasyddiaeth
 - Addysg Grefyddol
 - Addoli ar y cyd (Cymru a Lloegr yn unig)

- Gwerthoedd Prydeinig Sylfaenol (Cymru a Lloegr yn unig)
- A yw ymagwedd HRE yn paratoi staff yn well i ddelio â'r pynciau hyn neu bynciau dadleuol eraill?

E) Rhwystrau a hwyluswyr HRE

Diolch am eich atebion hyd yma. Un o nodau'r ymchwil yw deall y rhwystrau a chyfleoedd ar gyfer mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol.

- A oedd yna unrhyw ffactorau allweddol a hwylusodd lwyddiant yr ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol?
 - Pa gyfleoedd ydych chi'n credu sy'n allweddol ar gyfer ysgolion eraill i'w nodi neu sefydlu i sicrhau gweithrediad esmwyth o HRE?
- Pa heriau neu rwystrau, os o gwbl, ydych chi wedi wynebu wrth fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol yn eich ysgol?
 - Anogwyr posibl: Rhieni'n anhapus, anhawster i ymgorffori HRE i'r cwricwlwm, diffyg adnoddau, gwrthwynebiad
 - Sut wnaethoch chi drechu'r rhwystrau hyn?
- Pa newidiadau, os o gwbl, fyddai eu hangen i sicrhau a galluogi mwy o ysgolion i fabwysiadu ymagwedd HRE yn llwyddiannus ac i ddysgu hawliau dynol?
 - Anogwyr posibl: Prif ffrydio hawliau dynol yn y cwricwlwm, hawliau dynol wedi eu hintegreiddio yn y fframwaith arolygu, dysgu o ysgol i ysgol, CPD, hyfforddiant, adnoddau

F) Effaith

- Beth fu effaith ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol?
- A oes yna unrhyw newidiadau o ran:
 - Lefelau rhagfarn ac agweddau ac/neu ymddygiadau gwahaniaethol
 - Amllder bwlio, yn arbennig bwlio seiliedig ar hunaniaeth
 - Cyfraddau gwahardd ac ymddygiad disgyblion
 - Presenoldeb disgyblion
 - Cyrhaeddiad academaidd
 - Lles disgyblion
 - Hyder a gwytnwch disgyblion
 - Ymgysylltiad disgyblion mewn gwneud penderfyniadau
 - Ymgysylltiad disgyblion mewn materion hawliau dynol
 - Meithrin perthnasau da yn gyffredinol yn y gymuned leol tu hwnt i iard yr ysgol
 - Unrhyw agweddau perthnasol eraill o fywyd ysgol
- Sut ydych chi'n mesur/monitro'r effaith yma? Cyfwelydd i brocio ynghylch tystiolaeth o'r effaith.
- I ba raddau y gellir priodoli'r buddion hyn yn uniongyrchol i HRE?
- Sut mae ymagwedd hawliau dynol yn rhagori ar y meini prawf o 'ysgol dda'?

G) Casgliadau a chloi

Diolch i chi am eich amser heddiw, mae'ch atebion wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r ymchwil EHRC. A oes yna unrhyw beth yr hoffech ei grybwyll nad ydym wedi ei drafod heddiw?

Atodiad 2: Holiadur disgyblion

Ynglŷn â'r ymchwil

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw corff cydraddoldeb mwyaf Prydain Fawr. Ein gwaith ni yw gwneud Prydain yn fwy teg. Fe wnawn hyn trwy ddiogelu a gorfodi'r cyfreithiau sy'n gwarchod hawliau pobl i degwch, urddas a pharch.

Rydyn ni'n cynnal ymchwil ar addysg hawliau dynol mewn ysgolion uwchradd. Nod yr ymchwil yw deall sut mae ysgolion yn mewnosod hawliau dynol yn yr ystafell ddosbarth a sut mae'r ymagwedd yma'n effeithio ar ddisgyblion. Rydym yn siarad gydag athrawon a disgyblion mewn 10 o ysgolion ar draws Prydain Fawr sydd wedi mabwysiad ymagwedd hawliau plant.

Fe ddefnyddir eich ymatebion i ddeall arfer da a bydd y casgliadau yn cael eu defnyddio mewn adroddiad ymchwil i'w gyhoeddi'r flwyddyn nesaf.

Sut fyddwn yn trin eich data

Mae'r arolwg hwn yn ddiennw a chyfrinachol. Nid ydym yn casglu unrhyw ddata personol yn rhan o'r arolwg hwn, felly peidiwch â gadael unrhyw wybodaeth yn y blychau sylwadau a allai ddatgelu pwy ydych chi (er enghraifft eich enw, oedran, dosbarth). Delir â'r holl ddata yn unol â'n [hysbysiad preifatrwydd](#).

Diolch i chi am gwblhau ein holiadur.

1. A ydych chi'n teimlo bod gennych chi unrhyw ddweud mewn penderfyniadau sy'n eich effeithio yn eich ysgol? Os felly, sut? Os nad, pam?
2. A yw disgyblion yn cael eu hannog i sefyll i fyny dros eu hawliau eu hunain yn y dosbarth?
3. Beth mae'ch ysgol wedi ei wneud parthed hawliau dynol yr oeddech yn arbennig o hoff ohono? (Rhowch fanylion)
4. A oes yna unrhyw beth nad ydych chi'n ei hoffi neu oedd yn anodd i chi? Pam hynny?
5. Beth hoffech chi ei weld yn cael ei newid neu gynnwys mewn gwersi am hawliau dynol?
6. Ydych chi'n credu fod ymagwedd hawliau wedi gwneud gwahaniaeth yn yr ysgol ac yn eich cymuned ehangach? Os felly, sut? Os nad, pam?
7. A yw dysgu am hawliau dynol wedi effeithio arnoch chi'n bersonol? Os felly, sut?
8. A ydych chi'n credu bod yna bobl yn yr ysgol ble nad yw'r gwaith parchu hawliau wedi cael unrhyw effaith? Os ydych, pam eich bod yn meddwl hyn?

Cyfeiriadau

BEMIS (2013), [‘A Review of Human Rights Education in Schools in Scotland.’](#) [Gwelwyd 21 Ebrill 2020]

Comisiynydd Plant Cymru (CPC) (2018), [‘Addysg hawliau dynol yn y cwricwlwm newydd: papur safbwynt comisiynydd plant Cymru.’](#) [Gwelwyd 21 Ebrill 2020]

Yr Adran Addysg (2014), [The national curriculum in England: Key stages 3 and 4 framework document.](#) [Gwelwyd 31 Mawrth 2020]

Yr Adran Addysg (2019), [Relationships Education, Relationships and Sex Education \(RSE\) and Health Education.](#) [Gwelwyd 31 Mawrth 2020]

Education Scotland. [Curriculum for Excellence: health and wellbeing experiences and outcomes.](#) [Gwelwyd 31 Mawrth 2020]

Education Scotland. [What is the curriculum for excellence?](#) [Gwelwyd 21 Ebrill 2020]

Education Scotland (2017), [Benchmarks Social Studies.](#) Gwelwyd 31 Mawrth 2020]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019), [Cynllun Strategol 2019–2022.](#) [Gwelwyd 12 Mai 2020]

GTCS (2012), [The Standards for Registration: Mandatory Requirements for Registration with the General Teaching Council for Scotland,](#) Caeredin: Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

Hoffman, S. ac O’ Neill, S. (2018), [Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y CU ar Hawliau’r Plentyn yng Nghymru.](#) Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. [Gwelwyd 22 Ebrill 2020]

Hoffman, S. (2019), [Briefings: Incorporation of International Human Rights.](#) Sefydliad Bevan. [Gwelwyd 22 Ebrill 2020]

Jerome, L., Emerson, L., Lundy, L. ac Orr, K. (2015), Teaching and Learning About Child Rights: A Study of Implementation in 26 Countries, Prifysgol Queens Belfast. [Gwelwyd 31 Mawrth 2020]

Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted). 2019, Datganiad i'r wasg: [Ofsted's new inspection arrangements to focus on curriculum, behaviour and development](#). [Gwelwyd 6 Ebrill 2020]

Robinson, C., Quennerstedt, A. a l'Anson, J. (2020), ['The translation of articles from the United Nations Convention on the Rights of the Child into education legislation: the narrowing of Article 12 as a consequence of translation,' The Curriculum Journal](#),

Robinson, C. (2017), 'Translating human rights principles into classroom practices: inequities in educating about human rights.' *The Curriculum Journal*, rhifyn 28, rhif 4, tt. 123-36.

Llywodraeth yr Alban (2013), [Learning for Sustainability: The Scottish Government's response to the Report of the One Planet Schools Working Group](#). [Gwelwyd 4 Mai 2020]

Llywodraeth yr Alban (2020), [Curriculum for Excellence Review 2020-2021](#). [Gwelwyd 30 Ebrill 2020]

Senedd yr Alban (2000), [Deddf Safonau yn Ysgolion yr Alban ac ati](#). Caeredin: Senedd yr Alban Y Cenhedloedd Unedig. (2011). [Datganiad ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol](#) [ar-lein]. [Gwelwyd 7 Gorffennaf 2020]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005), [Rheoliadau Cynghorau Ysgol \(Cymru\)](#) [Gwelwyd 04 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru (2020a), [Canllawiau i'r Cwricwlwm i Gymru, Meysydd dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau](#) [Gwelwyd 31 Mawrth 2020]

Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru (2020b), [Themâu trawsgricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm: Addysg Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(UNCRC\)](#) [Gwelwyd 31 Mawrth 2020]

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

[Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.](#)

Gwasanaeth Cyngchori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngchori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth annibynnol ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 19:00 (Dydd Llun i Ddydd Gwener)

10:00 tan 14:00 (Dydd Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2020 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Tachwedd 2020

ISBN: 978-1-84206-832-8